Arolygiaeth Prawf EF

# Adroddiad Blynyddol 2023: arolygiadau o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid

MEDI 2024

Gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid o ansawdd uchel sy'n newid bywydau pobl er gwell

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol y gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gosod y safonau sy'n taflu goleuni ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn. Mae ein harolygiadau, adolygiadau, ymchwil a chynhyrchion arfer effeithiol yn darparu barnau ac arweiniad awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn defnyddio ein llais i ysgogi newid systemau, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau.

# Cynnwys


**Trosolwg y Prif Arolygydd ... 4**

Ein harolygiadau ieuenctid 2022/2023 ... 6

Tabl graddfeydd arolygu, Hydref 2022 i Hydref 2023 ... 7

**Y dirwedd cyfiawnder ieuenctid yn 2023 ... 10**

**Trosolwg o berfformiad arolygu 2022/2023 ... 12**

**Clywed lleisiau plant, rhieni a gofalwyr: Ein hymrwymiad ... 14**

**Yr effaith: Yr hyn y mae plant, rhieni a gofalwyr yn ei ddweud am eu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ... 15**

**Darpariaeth sefydliadol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ... 19**

Llywodraethu ac arweinyddiaeth ... 19

Staff ... 22

Adborth arolwg staff ... 23

Partneriaethau a gwasanaethau ... 25

Secondeion prawf ... 28

Gwybodaeth a chyfleusterau ... 29

**Goruchwylio gorchmynion llys ... 31**

Asesiad ... 35

Cynllunio ... 36

Gweithredu a darparu ... 38

Adolygu ... 40

Cynllunio wrth gefn ... 41

Dioddefwyr ... 41

Argymhellion yn ymwneud â gwaith llys ... 42

**Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ... 43**

Gweithredu a darparu datrysiadau cymunedol ... 47

Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys ... 48

Dioddefwyr ....................................................................................................51
**Diwallu anghenion amrywiol plant ....................................................................52**
**Goruchwyliaeth rheolwyr..................................................................................54**
**Ailsefydlu a remandio ........................................................................................56**
**Gwersi a ddysgwyd ar y rhaglen arolygu hon a dyfodol arolygiadau ieuenctid ...60**
Arolygu yng Nghymru ........................................................................................60
Adborth o arolygiadau.........................................................................................60
Datblygu'r rhaglen arolygu newydd ....................................................................61

Sylwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi'u newid drwy gydol yr adroddiad er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolyn.

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/cymraeg/

**Cyhoeddwyd gan:**

HM Inspectorate of Probation
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

ISBN: 978-1-916621-45-9

# Trosolwg y Prif Arolygydd



Dros y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad blynyddol hwn rydym wedi parhau i weld canlyniadau arolygu trawiadol a chadarnhaol ar y cyfan ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (GCI). Ers 2018, mae nifer y GCIau sydd wedi cael sgôr gyffredinol o 'Rhagorol' neu 'Dda' wedi cynyddu, ac mae'n bleser gennyf adrodd nad ydym wedi rhoi sgôr gyffredinol o 'Anfoddhaol' ers 2020. Mae'r canlyniadau hyn yn amlwg iawn yn wahanol i'r hyn yr ydym yn ei ganfod yn ein harolygiadau o wasanaethau prawf i oedolion, ac mae nifer o wahaniaethau nodedig y gallwn eu gweld yn ein harolygiadau GCI o'u cymharu â'r gwasanaeth prawf. Ar gyfer ein safon staffio, cafodd 90 y cant o GCIau sgôr o 'Da' neu 'Rhagorol'. Yn y rhan fwyaf o GCIau, rydym wedi dod o hyd i weithlu sefydlog, llwythi gwaith hylaw, hyfforddiant digonol, ac adroddiadau am oruchwyliaeth staff o ansawdd da. Mae'r rhain i gyd yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwaith yr ydym yn ei weld.

Mae'n amlwg i mi nad dim ond lleoleiddio yw'r hyn sy'n allweddol ar gyfer darparu GCIau yn llwyddiannus; ond hefyd i gael y strwythurau a'r partneriaethau cywir yn eu lle, gyda sefydlogrwydd yn y gwasanaeth a safon uchel o ymyriadau a darpariaeth. Drwy ein harolygiadau, rydym wedi gweld yr effaith y gall gwaith o ansawdd uchel yn y maes hwn ei gael, ac mae 75 y cant o'r GCIau wedi'u graddio naill ai'n 'Dda' neu'n 'Rhagorol' yn erbyn safon ein partneriaethau a'n gwasanaethau. Mae'n wych gallu cyhoeddi adroddiadau arolygu mor gadarnhaol ar gyfer GCIau a nodi'r cynnydd a wnaed. Ond er mwyn cynnal y safon uchel hon o waith, mae'n hanfodol bod GCIau yn parhau i dderbyn cyllid digonol ac nad yw arian yn cael ei dynnu'n ôl yn y dyfodol (er gwaethaf perfformiad da presennol y GCIau). Yn anffodus, rydym wedi gweld rhai GCIau gyda thoriadau i gyllid a gwasanaethau partneriaeth – galwaf am adolygu hyn ar fyrder. Mae costau dynol ac ariannol pobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system gyfiawnder yn ddiangen yn fwy na'r buddsoddiad sydd ei angen i gynnal darpariaeth dda.

Maes sy'n peri pryder yr hoffwn dynnu sylw ato yw'r mater a godwyd gennym yn adroddiad y llynedd ynghylch y gofyniad statudol am secondeion prawf i GCIau. Er bod rhwymedigaeth statudol i'r swyddi hyn gael eu llenwi, mae pwysau ehangach ar y Gwasanaeth Prawf wedi golygu eu bod yn aml yn wag - gyda dim ond naw o'r 20 Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a gwmpesir yn yr adroddiad blynyddol hwn â Swyddog Prawf wedi'i secondio yn ei swydd. Er gwaethaf gweld trefniadau i weithio o amgylch hyn, mae'n anochel bod gan y bylchau hyn oblygiadau sylweddol, gan gynnwys ar gyfer pontio effeithiol o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, rhannu gwybodaeth yn effeithiol, a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ar feysydd allweddol, megis trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth, amddiffyn plant, a dealltwriaeth lawn o anghenion amrywiol plant a'r oedolion ifanc sy'n trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf. Nid yw trefniadau 'gweithio o amgylch' o'r fath yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r materion a'r risgiau sy'n codi pan na chaiff y swyddi statudol hyn eu llenwi. Rydym yn cydnabod bod y Gwasanaeth Prawf wedi bod yn dioddef ei bwysau staffio ei hun, ac yn gweld hyn bob dydd yn ein rhaglen arolygu oedolion. Ond mae recriwtio i wasanaethau prawf bellach wedi cynyddu; ac eto nid yw'r ymgyrch recriwtio hon wedi arwain at lenwi digon o swyddi secondeion prawf statudol.

Yn ogystal, rydym yn dal i ddod o hyd i rai bylchau o ran mynd i’r afael ag anghymesuredd, gyda diffyg strategaethau a dulliau cydlynol o fynd i’r afael â chynrychiolaeth anghymesur rhai grwpiau o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Rydym yn parhau i weld rhai grwpiau yn cael eu gorgynrychioli – yn benodol, plant mewn gofal a phlant o grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â phlant ag anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu. Mae mynd i'r afael ag anghymesuredd yn parhau i fod yn faes allweddol ar gyfer polisi cenedlaethol a chynllunio strategol lleol.

Yn ein harolygiadau, rydym hefyd yn gweld amrywiaeth eang yn y defnydd o gynlluniau erlyn gohiriedig, gan gynnwys Canlyniad 22 (erlyniad gohiriedig yn ymwneud â gweithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth), ac rydym yn aml yn darparu argymhellion ynghylch hyn. Gobeithiwn y bydd yr amrywiad hwn yn dechrau cael sylw trwy gyhoeddi’r matrics difrifoldeb plant wedi’i ddiweddaru, ac y byddwn yn gweld cynlluniau Canlyniad 22 neu gynlluniau erlyn gohiriedig eraill yn cael eu cymhwyso’n fwy cyson mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Rydym wedi canfod y gallai gwaith sy’n ymwneud â dioddefwyr fod yn gryfach, ac rydym wedi gweld gostyngiad bach yn ansawdd y gwaith sy’n ymwneud â diogelwch a lles. Nid yw gwaith yn erbyn pob maes o’n safonau ar gyfer gwaith llys statudol yn rhoi sylw cyson i anghenion a dymuniadau dioddefwyr o hyd. Gwyddom pa mor hanfodol yw gwaith sy'n ymwneud â dioddefwyr. Gobeithiwn ysgogi gwelliant yn ansawdd gwasanaethau i ddioddefwyr yn ein rhaglen arolygu nesaf drwy ein safon arolygu ieuenctid newydd. Byddwn yn defnyddio hwn i asesu a yw gwaith gyda dioddefwyr o ansawdd uchel, wedi’i deilwra i’r unigolyn ac yn ymatebol o ran gwella canlyniadau a diogelwch i ddioddefwyr.

Gan mai hwn yw fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Prif Arolygydd, rwy'n falch o allu adrodd ar yr arfer cadarnhaol a'r cyflawniadau yr ydym wedi'u gweld mewn GCIau. Hoffwn gydnabod gwaith caled ymarferwyr ar draws y sector a diolch iddynt am eu hymdrech a’u hymrwymiad. Wrth i ni weithio tuag at ddiwedd ein rhaglen arolygu gyfredol o GCIau, rwy'n gyffrous i lansio ein rhaglen newydd ar ddechrau 2025. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith datblygu helaeth ar gyfer y rhaglen newydd, sydd wedi cynnwys digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain, ar draws y sector cyfiawnder ieuenctid ac yn ehangach. Gobeithiaf y byddwn yn parhau i weld canlyniadau da hyd at ddiwedd ein rhaglen bresennol ac ymlaen i'n harolygiadau yn y dyfodol.



Martin Jones CBE
**Prif Arolygydd Prawf EF**


## Ein harolygiadau ieuenctid 2022/2023

### Arolygiadau ieuenctid sengl ac ar y cyd

Roedd arolygiadau unigol yn cynnwys arolygwyr o Arolygiaeth Prawf EF yn unig. Arweiniwyd arolygiadau ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EF ynghyd â chydweithwyr o arolygiaethau iechyd, yr heddlu, addysg a gofal cymdeithasol.

Arolygwyd yr 20 gwasanaeth canlynol rhwng Hydref 2022 a Hydref 2023:

1 St Helens
2 Coventry
3 Gorllewin Berkshire
4 Birmingham
5 Knowsley
6 Swydd Lincoln
7 Hackney (Ar y cyd)
8 Gateshead
9 Greenwich
10 Northumberland
11 Barnsley
12 Gogledd Swydd Lincoln
13 Ynys Wyth
14 Ealing
15 Swydd Northampton
16 Southwark
17 Swydd Gaergrawnt
18 Solihull
19 Swydd Stafford
20 Swydd Nottingham (Ar y cyd)



**Allwedd**
Rhagorol
Da
Angen gwelliant
Anfoddhaol

## Tabl graddfeydd arolygu, Hydref 2022 i Hydref 2023

Rhoddir sgôr gyffredinol i bob GCI ar raddfa pedwar pwynt: 'Rhagorol' ☆, 'Da' ●, 'Angen gwella' ● ac 'Anfoddhaol' ●. Caiff y sgoriau o'r safonau unigol eu hagregu i gynhyrchu'r sgôr gyffredinol. Mae adio'r sgoriau hyn yn cynhyrchu sgôr gyfansawdd yn amrywio o 0–36, sydd wedi'i bandio i gynhyrchu'r sgôr gyffredinol, fel a ganlyn: 0–6 = 'Anfoddhaol', 7–18 = 'Angen gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Rhagoroll'.

Caiff ailsefydlu ei raddio mewn arolygiadau o fis Gorffennaf 2021 ymlaen. Nid yw'r safon hon wedi'i graddio mewn GCI lle na fu unrhyw achosion ailsefydlu yn ystod cyfnod sampl yr arolygiad. O dan yr amgylchiadau hynny, mae adroddiad yr arolygiad yn rhoi esboniad naratif o bolisi a darpariaeth.

| | | | | Cyflawni sefydliadol | | | | Datrysiadau llys | | | | Datrysiadau y tu allan i'r llys | | | | Ailsefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth a arolygwyd | Cyhoeddwyd | Sgôr gyfansawdd | Gradd gyffredinol | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 | 4.1 |
| St Helens | 21/02/2023 | 29 | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da |
| Coventry | 21/02/2023 | 32 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da |
| Gorllewin Berkshire | 28/03/2023 | 21 allan o 24 | Rhagorol | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Heb ei raddio | Heb ei raddio | Heb ei raddio | Heb ei raddio | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Heb ei raddio |
| Birmingham | 21/03/2023 | 11 | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella |
| Knowsley | 11/05/2023 | 29 | Da | Da | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Da | Da | Da | Heb ei raddio |
| Swydd Lincoln | 04/04/2023 | 31 | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Rhagorol | Da |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hackney (Ar y cyd) | 10/05/2023 | 25 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 |
| Gateshead | 23/05/2023 | 26 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟠 |
| Greenwich | 20/06/2023 | 23 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🔴 | 🟠 | ☆ | 🟠 | 🟢 |
| Northumberland | 19/07/2023 | 26 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | Heb ei raddio |
| Barnsley | 19/07/2023 | 19 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | ☆ |
| Gogledd Swydd Lincoln | 05/09/2023 | 21 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | Heb ei raddio |
| Ynys Wyth | 14/11/2023 | 15 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | ☆ | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟢 | 🟢 |
| Ealing | 26/09/2023 | 17 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 |
| Swydd Northampton | 13/10/2023 | 24 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟠 | ☆ | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ |
| Southwark | 17/10/2023 | 29 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟠 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swydd Gaergrawnt | 31/10/2023 | 19 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🔴 | ☆ | 🟠 | 🟢 |
| Solihull | 19/12/2023 | 17 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | Heb ei raddio |
| Swydd Stafford | 19/12/2023 | 9 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟠 |
| Swydd Nottingham (Ar y cyd) GTI | 23/01/2024 | 19 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ |

# Y dirwedd cyfiawnder ieuenctid yn 2023

Rydym wedi gweld newidiadau a datblygiadau sylweddol yn y dirwedd cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru a Lloegr yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol ieuenctid hwn (Hydref 2022 i Hydref 2023) a'r cyfnod cyhoeddi (hyd at fis Gorffennaf 2024). Mae'r sector wedi parhau i ganolbwyntio ar atal a dargyfeirio, fe wnaethom groesawu'r diweddariad o fatrics difrifoldeb plant,[1] Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023. Roeddem hefyd yn croesawu cyflwyniad offeryn asesu atal a dargyfeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) ym mis Ebrill 2024, a chyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar reoli achosion. Gobeithiwn y bydd y rhain yn cefnogi mwy o gysondeb ac ansawdd o ran arfer a chyflawni, yn enwedig wrth i ni barhau i weld rhai gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y caiff datrysiadau y tu allan i'r llys eu cymhwyso a'u defnyddio ledled Cymru a Lloegr.

Rydym yn dal i weld amrywiaeth eang yn y defnydd o gynlluniau erlyn gohiriedig, yn enwedig Canlyniad 22,[2] drwy gydol ein harolygiadau. Mae rhai heddluoedd yn gweithredu'r cynlluniau hyn ar gyfer plant yn rhagweithiol, tra bod eraill eto i ddefnyddio'r cyfleoedd y mae erlyniad gohiriedig yn eu cynnig. Rydym yn obeithiol y bydd cymhwyso'r matrics difrifoldeb plant yn gyson, a chyfeirio ato, yn helpu heddluoedd a GCIau i ddefnyddio'r ystod lawn o opsiynau sydd ar gael iddynt wrth weithio gyda phlant sydd wedi cyflawni troseddau.

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ei ystadegau blynyddol,[3] gan edrych ar ddata o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023. Roedd y rhain yn dangos cynnydd bach yn nifer y plant a oedd yn dod i mewn am y tro cyntaf (un y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol), y cynnydd cyntaf a welwyd yn y 10 mlynedd diwethaf. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr achosion o stopio a chwilio (13 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Cynyddodd dedfrydu plant yn y llys am y tro cyntaf ers 10 mlynedd, a gwelwyd cynnydd bach hefyd yn y gyfradd aildroseddu. Fodd bynnag, gostyngodd nifer cyfartalog y plant a gadwyd yn y ddalfa ar unrhyw un adeg (cyfartaledd o 440 o blant ar unrhyw un adeg a gostyngiad o dri y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Hwn oedd y nifer isaf ar gofnod. Amlygodd y cyhoeddiad fod plant Du yn parhau i gael eu gorgynrychioli ar draws y rhan fwyaf o gamau'r system cyfiawnder ieuenctid, ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi parhau i'w weld drwy gydol yr arolygiadau a gwblhawyd gennym yn ystod y cyfnod hwn. Erys bylchau mewn data a dadansoddiadau ar y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a dargyfeirio, ac mae hwn yn faes a fyddai'n elwa'n fawr o fwy o adolygu, monitro a goruchwyliaeth.

Ym mis Mawrth 2023, lansiwyd ein hadnodd tystiolaeth ar-lein,[4] lle'r oeddem yn anelu at grynhoi canfyddiadau ymchwil allweddol a'u cyflwyno mor gryno â phosibl. Wrth edrych ar draws y llenyddiaeth, mae nifer o ffactorau'n dod i'r amlwg yn gyson fel rhai sy'n ganolog i wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau plant sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol, neu sydd mewn perygl o ymwneud ag ef. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd sefydlu perthnasoedd cadarnhaol, sicr, cyson ac ymddiriedus rhwng ymarferwyr a phlant, yn ogystal â gweithio ar y cyd â phlant i ddarganfod nodau, dod o hyd i atebion ac adeiladu ar eu cryfderau, wrth weithio i fynd i'r afael â'u hanghenion. Gwelsom rai enghreifftiau rhagorol o hyn ar draws ein harolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

---

[1] National Police Chiefs Council (2023). Child Gravity Matrix. Ar gael yn: www.npcc.police.uk/SysSiteAssets/media/downloads/publications/publications-log/criminal-justice/2023/child-gravity-matrix-v2.2---september-2023.pdf

[2] Mae Canlyniad 22 yn erlyniad gohiriedig sy'n cynnwys gweithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth.

[3] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2024). Youth Justice Statistics 2022 to 2023 England and Wales. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2022-to-2023

[4] Arolygiaeth Prawf EF. Staff. Ar gael yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/research/the-evidence-base-youth-offending-services/organisational-delivery/staff/

Drwy gydol 2023 buom yn gweithio ar ein rhaglen arolygu ieuenctid newydd arfaethedig, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sector. Buom yn gweithio gydag Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, cynnal cyfres o sioeau teithiol ar draws y sector, defnyddio gwybodaeth o'n grŵp cynghori arbenigol, a sefydlu gweithgor rhanddeiliaid yn cynnwys aelodau o'r GCI. Buom hefyd yn siarad â phlant a phobl ifanc am eu barn ar ein rhaglen arfaethedig. Mae ein gwaith ar y rhaglen newydd yn parhau a bydd yn arwain at nifer o arolygiadau peilot drwy gydol 2024. Rydym yn bwriadu 'mynd yn fyw' gyda'r rhaglen newydd yn 2025.

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gyhoeddi arolygiad thematig ar y cyd o waith gyda phlant sy'n destun cadw ieuenctid ar remánd.[5] Canfuom nad oedd angen i lawer o'r plant yn ein sampl gael eu cadw yn y ddalfa ac roedd ansawdd y gofal a'r cymorth a gawsant tra ar remánd yn amrywio. Canfuom hefyd fod y statws plant mewn gofal yr oedd plant yn ei dderbyn o ganlyniad i gael eu remandio yn cael ei gymhwyso mewn ffyrdd gwahanol iawn. Cafodd hyn effaith sylweddol ar brofiadau plant, gyda phlant yn aml ddim yn cael y cymorth, yr ymyriad neu'r mynediad at wasanaethau partneriaeth yr oedd ganddynt hawl iddynt.


Un o'r pryderon mwyaf arwyddocaol sydd gennym mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid yn ystod y cyfnod hwn yw'r pwysau ar adnoddau a chyllid partneriaeth. Mae hyn yn hanfodol i ddyfodol GCIau a'r system cyfiawnder ieuenctid. Rydym wedi dod o hyd i GCIau lle mae cyllid a/neu wasanaethau partneriaeth wedi'u cwtogi neu eu hymestyn, a llawer o enghreifftiau lle mae partneriaid statudol yn absennol, yn weithredol ac yn strategol. Rydym o'r farn bod angen adolygu a rhoi sylw brys i hyn, er mwyn sicrhau dyfodol GCIau a'u bod yn parhau i wneud gwaith effeithiol gyda phlant sydd wedi cyflawni troseddau.

[5] Arolygiaeth Prawf EF, Arolygiaeth Carchardai EF, Ofsted. (2023). A joint thematic inspection of work with children subject to remand in youth detention. Ar gael yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/thematic-youth-remand-23/

# Trosolwg o berfformiad arolygu 2022/2023

Rhwng mis Hydref 2022 a mis Hydref 2023, cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf EF 20 o adroddiadau arolygu ieuenctid, gan gynnwys 18 arolygiad sengl a dau arolygiad ar y cyd.[6]

**Ffigur 1: Cyfraddau cyffredinol 2018-2023**




O'r 20 GCI a arolygwyd, cafodd tair sgôr 'Rhagorol', 12 'Da' a phump 'Angen gwelliant'. Ni chafodd yr un ohonynt sgôr 'Anfoddhaol'.

Mae'r ffigurau hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol (Hydref 2021 i Hydref 2022), pan gafodd tri Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sgôr 'Rhagorol', 20 'Da' a 10 'Angen gwelliant'. Nid oedd yr un ohonynt yn 'Anfoddhaol'.[7] Nid ydym wedi graddio GCI yn 'Annigonol' yn gyffredinol ers mis Gorffennaf 2020, ac mae'n braf gweld bod GCIau yn cyflawni graddau uwch na hyn yn gyson.

Coventry oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid â'r sgôr gyffredinol uchaf yn y cyfnod hwn, a gafodd sgôr gyffredinol o 32 allan o 36. Cyflawnodd raddfeydd 'Rhagorol' ar draws nifer o'n safonau, gan gynnwys arweinyddiaeth a llywodraethu, staff, gwybodaeth a chyfleusterau a pholisi a darpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys.

**Astudiaeth achos: Coventry**

Yn Coventry, daethom o hyd i GCI oedd yn perfformio'n dda. Roedd ganddo fwrdd rheoli ymroddedig ac egnïol, wedi'i gefnogi gan grŵp galluog ac angerddol o reolwyr a staff. Roedd presenoldeb arweiniol pennaeth gwasanaeth profiadol a gwybodus yn hollbwysig i'r gwasanaeth. Ni ellir diystyru ei rôl yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i blant yn yr amgylchedd dinesig heriol hwn.

Roedd strategaeth ardderchog ar gyfer datblygu'r gweithlu ac ymrwymiad gwirioneddol i ddatblygu a chefnogi staff. Roedd y GCI yn casglu safbwyntiau plant a'u rhieni neu ofalwyr yn rheolaidd, ac roedd y rhain yn cael sylw helaeth yn y gwaith a gyflawnwyd ar eu cyfer.

Gwelsom dystiolaeth sylweddol o gyfranogiad partneriaid allweddol o iechyd, gofal cymdeithasol plant, atal camfanteisio, camddefnyddio sylweddau, yr heddlu a gwasanaethau addysg. Roedd dull aml-asiantaeth cryf, gyda digon o adnoddau, tuag at weithio gyda phlant. Gwnaeth y gwaith gyda'r sector gwirfoddol i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â

[6] Swydd Nottingham a Hackney.

[7] Nodir ein bod wedi cyhoeddi llai o arolygiadau yn y cyfnod presennol nag yn yr un cyfnod y llynedd.

gwahaniaethu ac anghymesuredd argraff arbennig arnom drwy baru mentoriaid â’r plant yn ôl profiad byw a rennir neu dreftadaeth.

Roedd ymagwedd y GCI at waith y tu allan i'r llys yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o'r sylfaen dystiolaeth, yn genedlaethol ac yn lleol. Roedd y gwaith o gyflawni gwaith datrysiadau y tu allan i’r llys yn gyson o ansawdd uchel, gan gyrraedd gradd ‘Rhagorol’ ar gyfer pob un o’r pedair safon (asesu, cynllunio, gweithredu a chyflawni, a pholisi a darpariaeth).

Cynhaliwyd asesiadau cynhwysfawr gyda phlant ar ddatrysiadau ar ôl y llys a thu allan i'r llys. Gwelsom y rhain yn cael eu datblygu'n waith cynllunio cydlynol, a gafodd ei drosi wedyn yn wasanaethau o ansawdd uchel i blant a'u teuluoedd.

# Clywed lleisiau plant, rhieni a gofalwyr: Ein hymrwymiad

Un o’n blaenoriaethau allweddol yw gwrando ar leisiau plant, rhieni a gofalwyr fel y gallwn ddeall eu profiadau o gyfiawnder ieuenctid a GCIau. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen inni barhau i’w ddatblygu. Eleni, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol i wella'r cyfleoedd i blant, rhieni a gofalwyr siarad â ni a dweud wrthym am eu profiadau o ymwneud â GCIau. Ein cynllun yw adeiladu ar hyn yn ystod ein harolygiadau peilot ac wrth i ni symud i'r fframwaith arolygu nesaf.

Rydym yn cynhyrchu fideo animeiddiedig i egluro pwy ydyn ni, beth ydyn ni’n ei wneud, a pham ei bod yn bwysig clywed adborth gan blant ar eu profiadau o GCIau. Bydd hwn yn cael ei ryddhau yn fuan, ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn gobeithio, drwy’r dull hwn, y gallwn gynyddu nifer y plant sy’n dymuno siarad â ni. Mae'r fideo wedi'i gyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc, sydd wedi dewis y delweddau a dylunio'r bwrdd stori a'r sgript, ac yn rhai o'r lleisiau sy'n ymddangos yn y fideo ei hun.

Dyma ran gyntaf ein hadolygiad. Rydym hefyd yn awr yn edrych ar y dulliau a ddefnyddiwn i roi cyfle i blant ymgysylltu â ni. Rydym yn darparu mwy o gyfleoedd i ymuno â grwpiau ffocws, cael sgyrsiau un-i-un, neu gysylltu â ni drwy neges destun neu ffôn. Rydym hefyd yn adolygu’r hyn rydym yn ei ofyn i blant, yn datblygu cwestiynau gyda nhw yr hoffent inni eu gofyn i’r GCIau ar eu rhan, ac yn cael eu hadborth ar ein safonau arfaethedig a’n fframwaith arolygu newydd. I gefnogi’r gwaith hwn, rydym wedi gweld ein safonau arfaethedig wedi’u datblygu’n fersiwn addas i blant ac wedi cynnal nifer o weithdai gyda phlant sy’n ymwneud â GCIau.

# Yr effaith: Yr hyn y mae plant, rhieni a gofalwyr yn ei ddweud am eu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

Mae'r ymatebion gan y plant, rhieni a gofalwyr yr ydym wedi siarad â nhw am eu profiadau o'u GCIau yn hynod gadarnhaol.

| **Dros y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad blynyddol hwn, buom yn siarad ag:** | |
|---|---|
| | 87 o blant |
| | 40 o rieni neu ofalwyr |
| | Rydym wedi anfon 423 o arolygon testun at blant, rhieni a gofalwyr, ac wedi cael 152 o ymatebion cyflawn a 52 o ymatebion rhannol (cyfanswm o 204). |

Teimlai naw deg chwech y cant o blant, rhieni a gofalwyr fod nodau'r GCI yn cael eu cyfleu'n effeithiol iddynt:

> *'Help ac arweiniad', 'cadw fi/fy mhlentyn allan o drwbwl', 'osgoi troseddu pellach', 'i wneud dewisiadau gwell'.*

Credai naw deg wyth y cant fod gan eu rheolwyr achos y sgiliau cywir i'w helpu. Nododd yr ymatebion eu bod yn gwerthfawrogi'r agwedd berthynol a welwn mewn llawer o GCIau. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn treulio amser gyda phlentyn, a'i rieni neu ofalwyr, yn amyneddgar, yn gwrando arnynt, ac yn eu trin â pharch. Roedd pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth yn nodwedd allweddol yn yr adborth a gawsom, ac roedd plant, rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ymarferwyr a oedd yn buddsoddi amser i ddod i'w hadnabod. Teimlai'r cyfranogwyr fod ymarferwyr wedi eiriol drostynt ac wedi bod yn rhagweithiol wrth fynychu cyfarfodydd gyda nhw neu ar eu rhan, mynd i'r afael â materion gydag ysgolion neu eu cefnogi i gael mynediad at ddarpariaeth:

> *'Rydych chi'n cael naws gynnes gyda nhw - rydych chi'n teimlo y gallwch chi siarad â nhw'.*

> *'Rydw i'n teimlo'n hyderus gyda fy ngweithiwr, ac rydw i'n ymddiried ynddynt. Mae wedi cymryd peth amser i adeiladu'r ymddiriedaeth oherwydd mae'n rhywbeth rydw i'n cael trafferth ag ef. Fe wnaethant lwyddo trwy fod yn ddiffuant, ac mae bod gyda nhw ers amser maith bellach wedi fy helpu i ddod i'w hadnabod'.*

Teimlai naw deg y cant fod eu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi eu cefnogi a'u helpu i gael mynediad at y gwasanaethau a fyddai'n eu cefnogi a'u helpu i aros allan o drwbl:

> *'Maen nhw'n talu i mi fynd i stiwdio gerddoriaeth a'i ddefnyddio am ddim. Mae'r bobl sy'n gweithio yno hefyd wedi fy helpu i ddysgu sut i gynhyrchu cerddoriaeth a rhythmau.'*

> *‘Pan gollais fy swydd oherwydd i'r cwmni fynd i'r wal, gofynnodd fy ngweithiwr GCI i mi beth oeddwn i eisiau ei wneud. Pan wnes i ddweud fod gen i ddiddordeb mewn gwaith ieuenctid fe roddodd fi mewn cysylltiad â gweithiwr ieuenctid, ac rydw i'n mynd i ddechrau gwirfoddoli.’*

> *‘Rydw i wedi cael help gyda rheoli dicter ac emosiynau. Maen nhw wedi fy helpu i feddwl sut i ddelio â phethau sy'n digwydd yn fy ardal i oherwydd gall hynny fod yn llethol. Fe siaradon nhw am addysg, ond dydw i ddim eisiau hynny. Rydw i eisiau prentisiaeth a nawr maen nhw'n fy helpu i geisio dod o hyd i un. Fe wnaethon nhw fy helpu i gael aelodaeth campfa, ac rydw i'n mynd tua 4-5 gwaith yr wythnos.’*

> *‘Mae gan fy mab ADHD a thrwy'r GCI roedd yn gallu cael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Cynigiwyd ymyriad cerdd iddynt a chydweithiodd gweithiwr y GCI yn dda gyda'r ysgol pan oedd problemau.’*

> *‘Maen nhw wedi helpu llawer. Y broblem fwyaf oedd ysgol. Helpodd y Gweithiwr fi i rannu fy mhryderon a rhwystredigaethau, aeth gyda mi i gyfarfodydd ysgol a’m cysylltu â’r Seicolegydd Addysg. Gyda'n gilydd roeddem yn gallu cael Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) ar gyfer fy mab fel y gall gael y cymorth cywir, ac yna nodwyd ysgol arall.’*

Teimlai naw deg naw y cant o blant fod y mannau lle'r oedd ymarferwyr y GCI yn eu gweld yn ddiogel ac yn hygyrch. Roedd yn amlwg bod ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o leoliadau cymunedol yn ogystal â swyddfeydd neu gyfleusterau'r GCI. Mewn llawer o sylwadau, canfuom fod ymarferwyr y GCI yn gweld plant mewn lleoliadau a oedd yn ei gwneud yn haws i'r plentyn fynychu, megis yn yr ysgol neu gartref, neu roeddent yn codi plant ac yn eu cludo i gyfarfodydd. Roedd adborth yn dangos bod hyn yn helpu plant i feithrin perthnasoedd ac integreiddio i'r gymuned. Roedd yn gadarnhaol clywed bod plant yn cyfeirio’n benodol at deimlo’n ddiogel a bod eu diogelwch wedi cael ei ystyried gan eu hymarferwyr.

> *‘Fe wnaethon nhw ofyn i mi ble efallai sydd ddim yn ddiogel i fynd yno, i mi ac iddyn nhw wneud yn siŵr nad oedd gen i broblemau mewn unrhyw lefydd. Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel.’*

> *‘Maen nhw'n gofyn ble rydych chi'n teimlo'n ddiogel pan fyddwch chi'n cwrdd â nhw gyntaf. Doeddwn i ddim yn teimlo’n ddiogel lle’r oedd fy ysgol, ac fe helpodd fy ngweithiwr GCI i mi fynd i leoliad ysgol newydd.’*

Roedd cyfranogiad plant, cydweithio a chyd-gynhyrchu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i lawer o GCIau. Mae'r rhan fwyaf o'r GCIau wedi nodi hyn fel blaenoriaeth yn eu cynlluniau ac egwyddorion a gwerthoedd gwasanaeth/awdurdod lleol. Mae rhai GCIau yn dal yn y camau cynnar o ddatblygu a gweithredu eu strategaeth cyfranogiad, ond rydym wedi gweld gwaith hynod drawiadol mewn sawl un. Mae rhai ardaloedd wedi datblygu eu strategaethau cyfranogiad eu hunain. Mae gan y GCIau lle rydym wedi gweld cyfranogiad yn cael ei wneud yn dda y nodweddion canlynol yn gyffredin:

- Maen nhw wedi creu strategaeth cyfranogiad/ymgysylltu plant penodol sy’n nodi’n glir sut y caiff strategaeth ei rhoi ar waith, sut y bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed, a sut y byddant yn defnyddio’r wybodaeth hon i ddylanwadu ar eu gwaith. Mae enghreifftiau yn cynnwys GCIau St Helens a Gorllewin Berkshire. Pan fydd gan wasanaethau strategaeth glir, gan gynnwys nodi pryd a sut y caiff y strategaeth honno ei rhoi ar waith, ochr yn ochr â nodi pwy fydd yn gyfrifol am ei harwain, ei goruchwylio a’i chwblhau, mae tystiolaeth o gynnydd ac effaith.

- Mae prosesau ar waith sy’n sicrhau bod lleisiau’r plentyn, rhieni a gofalwyr (nid astudiaethau achos) yn cael eu clywed fel mater o drefn ar lefel bwrdd, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, a gall byrddau ddangos yr effaith y mae hyn yn ei gael ar eu gwaith. Lle mae plant wedi gallu rhoi eu barn yn uniongyrchol i’r bwrdd, mae hyn wedi helpu’r bwrdd i ddeall profiadau’r plant ac yn aml wedi llywio’r modd y darperir gwasanaethau. Yn Ealing gwelsom rai enghreifftiau rhagorol o hyn, gan gynnwys lle y defnyddiwyd adborth plant wrth hyfforddi swyddogion heddlu newydd ar weithdrefnau stopio a chwilio.
- Mae yna ddull a diwylliant o bartneriaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd cyfranogiad plant.
- Mae barn plant wedi llunio ac wedi llywio darpariaeth gwasanaeth. Er enghraifft, yn St Helens, ymgynghorwyd â phlant ar welliannau i swyddfa'r GCI. Roedd hyn yn cynnwys creu ystafell i ferched, a dewis y cynllun lliw ar gyfer ystafelloedd ymyrryd, gorchudd y rheiliau allanol, ac offer ar gyfer y swyddfa (gan gynnwys bag dyrnu, bar brecwast, a thenis bwrdd).
- Mae cynnwys plant yn rheolaidd, yn weithredol ac yn ddidwyll wrth gyflwyno gwasanaethau strategol a gweithredol yn amlwg. Yn Birmingham, roedd plant yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgaredd strategol a gweithredol, gan gynnwys recriwtio.

**Cyfranogiad plant yn Gateshead**

Roedd deall profiadau plant, rhieni a gofalwyr, a dioddefwyr yn flaenoriaeth i’r GCI, ac roedd yn rhagweithiol o ran sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed gan y bwrdd, ac yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â phlant a’u rhieni neu ofalwyr wrth ddatblygu cynllun y GCI, a chreu fersiwn addas i blant i egluro eu bwriadau a’u blaenoriaethau.

Rhannwyd yr ethos hwn gan y bartneriaeth ehangach, a oedd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio a chydweithio gyda phlant a theuluoedd. Cefnogodd y bartneriaeth y GCI i flaenoriaethu hyn, ac i nodi sut y mae'n bwriadu ei ddatblygu ymhellach.

Mae plant a’u rhieni neu ofalwyr wedi mynychu’r bwrdd rheoli, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gael cynrychiolaeth sefydlog ym mhob cyfarfod.

Cefnogodd partneriaid y GCI i greu fideo animeiddiedig yn dogfennu profiadau plant o weithio gyda’r gwasanaeth. Cyd-gynhyrchwyd y darn gyda phlant ac mae wedi rhoi cyfle iddynt adrodd eu profiadau yn ddiogel. Mae’r GCI yn bwriadu defnyddio’r fideo ar gyfer dysgu ehangach ac i gefnogi teilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant.

Mae'n hanfodol bod GCIau yn clywed gan blant fel mater o drefn, yn gyson ac i safon uchel, a'u bod wedyn yn defnyddio hyn i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau. Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad yn ymwneud â chyfranogiad plant yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, gan gynnwys y dylai lleisiau plant gael eu clywed a chael effaith ar lefelau strategol.

**Cyfranogiad plant ym Mwrdeistref Frenhinol Greenwich**

Mae'r GCI wedi cynyddu'r defnydd o'r celfyddydau creadigol i ddarparu plant ag amrywiaeth o ffyrdd i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol. Cynhaliodd arddangosfa aml-gelfyddyd, o’r enw ‘Are You Listening’, a fynychwyd gan rieni, teulu a ffrindiau, swyddogion cyfiawnder ieuenctid, cynghorwyr personol, gweithwyr cymdeithasol, uwch arweinwyr mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, a’r cyfarwyddwr cynorthwyol ar gyfer teuluoedd, diogelu a gofal cymdeithasol.

Dysgodd y GCI o'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r arddangosfa hon a datblygodd waith pellach gyda'r plant. Defnyddiodd Theatr y Gorthrymedig i weithio gyda’r heddlu, y

gwasanaeth cymorth i deuluoedd a’r glasoed, a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i archwilio gormes, gwahaniaeth, a’r profiad o stopio a chwilio.

Mae ymgysylltiad plant â’r mentrau hyn, a’r pryderon a fynegwyd ganddynt, wedi arwain at eu cynnwys yn y gwaith o ailgomisiynu gwasanaethau oedolion priodol ac mewn trafodaethau gyda’r pennaeth cynhwysiant, gan gynnwys am eu profiadau yn yr ysgol a phrofiadau o wahaniaethu.

Mae'r plant wedi mynychu cyfarfodydd gwasanaeth cyfan i hyrwyddo'r mentrau celf creadigol, ac wedi cymryd rhan weithredol wrth ddatblygu a dylunio'r prosiectau hyn.

# Darpariaeth sefydliadol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid

Yn ein harolygiadau, rydym yn ystyried pedair agwedd allweddol ar ddarpariaeth sefydliadol wrth arolygu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid: llywodraethu ac arweinyddiaeth, staff, partneriaethau a gwasanaethau, a gwybodaeth a chyfleusterau. Ar draws yr 20 gwasanaeth sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn, rhoesom y graddau a ganlyn ar gyfer darpariaeth sefydliadol:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac arweinyddiaeth** | ★ **Rhagorol** 2 wasanaeth | ● **Da** 8 gwasanaeth | ● **Angen gwelliant** 10 gwasanaeth | ● **Anfoddhaol** 0 gwasanaeth |
| **Staff** | ★ **Rhagorol** 7 gwasanaeth | ● **Da** 11 gwasanaeth | ● **Angen gwelliant** 2 wasanaeth | ● **Anfoddhaol** 0 gwasanaeth |
| **Partneriaethau a gwasanaethau** | ★ **Rhagorol** 1 gwasanaeth | ● **Da** 14 gwasanaeth | ● **Angen gwelliant** 5 gwasanaeth | ● **Anfoddhaol** 0 gwasanaeth |
| **Gwybodaeth a chyfleusterau** | ★ **Rhagorol** 5 gwasanaeth | ● **Da** 11 gwasanaeth | ● **Angen gwelliant** 4 gwasanaeth | ● **Anfoddhaol** 0 gwasanaeth |


## Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Wrth asesu llywodraethu ac arweinyddiaeth, rydym yn ystyried tri chwestiwn allweddol, sy'n ymwneud â ph'un ai:

- a oes gweledigaeth a strategaeth leol glir ar gyfer darparu gwasanaeth ymatebol, personol o safon uchel i bob plentyn
- a yw’r trefniadau partneriaeth yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol yn weithredol
- a yw arweinyddiaeth y GCI yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol.

Mae'r cwestiynau allweddol hyn yn ymwneud â rheolaeth strategol y gwasanaeth, drwy'r bwrdd rheoli; rôl uwch swyddogion; a rheolaeth weithredol y gwasanaeth dydd i ddydd. Mae ffocws clir ar bwysigrwydd bwrdd rheoli effeithiol, sy’n cynnwys yr holl bartneriaid statudol (ac anstatudol, lle maent yn ychwanegu gwerth), lle mae aelodau’n mynychu’n gyson, yn weithredol yn eu cyfranogiad, ar y lefel briodol i wneud penderfyniadau, ac yn cydnabod y cyfraniadau pwysig y mae eu heffaith eu hunain yn eu gwneud i'r GCI.

**Ffigur 2: Dosbarthiad sgoriau llywodraethu ac arweinyddiaeth, Hydref 2022 i Hydref 2023**




Yn 2022/23, graddiwyd 50 y cant o GCIau yn 'Rhagorol' neu'n 'Dda' ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth, sy'n ostyngiad o'r ffigwr o 61 y cant yn 2021/22. Fodd bynnag, mae'n braf gweld nad oedd gan yr un o'r gwasanaethau a arolygwyd yn y cyfnod hwn raddfeydd 'Anfoddhaol' ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth.

Yn y ddau wasanaeth[8] a gafodd sgôr 'Rhagorol' ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethu, canfuom gadeiryddion bwrdd gwybodus a oedd yn deall cyfiawnder ieuenctid yn dda. Roeddent yn dwyn eu partneriaid i gyfrif yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn mabwysiadu dull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol. Gwelsom fyrddau a oedd yn deall ac yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo dull plentyn-yn-gyntaf, wedi'i lywio gan drawma, o weithio gyda phlant a theuluoedd, a phartneriaethau a oedd yn buddsoddi yn y GCI, gan ei helpu i ddod yn fwy gwydn fel sefydliad. Roedd aelodau'r Bwrdd yn cefnogi, yn deall ac yn adolygu gwaith y GCI yn rhagweithiol ac roedd cydlyniant rhwng y bwrdd a staff y GCI, a oedd yn eu helpu i ddod yn fwy cysylltiedig, yn strategol ac yn weithredol.

Roedd trefniadau llywodraethu yn hanfodol i arweinyddiaeth effeithiol. Roeddent yn sicrhau bod gan aelodau bwrdd yr awdurdod i wneud penderfyniadau amserol ac ystyriol ar ran eu sefydliadau, er budd y GCI. Canfuom fod byrddau ar eu mwyaf effeithiol pan oedd aelodau bwrdd yn gyfranogwyr gweithredol a oedd yn deall anghenion unigryw ac amrywiol plant a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a allai gyfeirio adnoddau i ddiwallu'r anghenion hyn, ac a oedd yn eiriolwyr dylanwadol ar eu cyfer. Yn sylfaenol i effeithiolrwydd byrddau oedd eu gallu i wrando ar brofiadau plant a'u rhieni neu ofalwyr, ac

[8] Swydd Lincoln a Coventry

yna defnyddio’r wybodaeth hon, yn strategol ac yn weithredol, i ddatblygu a gwella gwasanaethau.

**Graddio Swydd Lincoln yn ‘Rhagorol’ am lywodraethu ac arweinyddiaeth**

Roedd trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu Swydd Lincoln yn gryfder sylweddol. Gosododd bwrdd rheoli'r GCI weledigaeth a strategaeth a oedd wedi'u cyfathrebu'n dda, ac roedd trefniadau partneriaeth strategol yn aeddfed ac yn gydweithredol. Roedd gan aelodau'r Bwrdd ddigon o hynafedd i wneud penderfyniadau ac ymrwymo adnoddau gan eu hasiantaethau eu hunain. Buont yn modelu gwaith partneriaeth cadarnhaol, a adlewyrchwyd wedyn mewn gwaith gweithredol gyda phlant.

Roedd gan staff y GCI ac uwch arweinwyr ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod plant yn cael y gwasanaethau a'r ymyriadau mwyaf priodol. Roedd cysylltiadau cryf a chyd-ymddiriedaeth rhwng pennaeth y gwasanaeth, rheolwyr gweithredol, a'r bwrdd. Roedd aelodau'r Bwrdd yn wybodus am ansawdd yr arfer a ddarperir gan y GCI.

Roedd y bwrdd yn rhan o rwydwaith o drefniadau partneriaeth a oedd yn gweithio ar draws Swydd Lincoln. Darparodd aelodau bwrdd y GCI gysylltiadau strategol â fforymau partneriaeth eraill, megis y bartneriaeth diogelu plant, y bartneriaeth diogelwch cymunedol, y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol, a’r bartneriaeth lleihau trais. Gwnaethant yn siŵr bod anghenion plant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu clywed a’u hystyried yn y fforymau hyn.

Gwnaeth dealltwriaeth fanwl y bwrdd o’r materion a’r heriau sy’n wynebu plant y GCI argraff arbennig arnom. Roedd hyn yn seiliedig ar ddata a gwerthusiad o ffynonellau ac adroddiadau mewnol ac allanol.

Roedd ehangder y gwasanaethau wedi’u targedu, arbenigol a phrif ffrwd yn sicrhau bod partneriaid yn cydweithio’n agos ac yn rhannu cyfrifoldeb am fynd i’r afael ag anghenion cymhleth plant.

Mewn cyferbyniad, mewn meysydd a gafodd eu graddio ‘Angen gwelliant’ ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth, roedd trefniadau cadeirio’r bwrdd yn newid yn aml, roedd presenoldeb yn anghyson neu roedd newidiadau rheolaidd yn yr aelodaeth. Arweiniodd hyn at ddrifft, diffyg cyfeiriad a chynnydd cyfyngedig. Gwelsom enghreifftiau o ddatgysylltiad rhwng y bwrdd a staff gweithredol, ac aelodau’r bwrdd nad oeddent yn deall anghenion plant y GCI ac na chawsant eu hysbysu am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan y GCI. Nid oedd cynnydd ar gynlluniau gweithredu’n cael ei yrru na’i fonitro’n effeithiol, ac roedd prosesau cyfyngedig ar gyfer coladu, dadansoddi a defnyddio adborth plant, gydag ychydig iawn o dystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio i lywio polisi, strategaeth neu ddarpariaeth.


Yn hollbwysig, mewn rhai meysydd, canfuom fod strategaethau cydlynol ar gyfer adnabod a mynd i’r afael ag anghenion amrywiol plant naill ai’n gyfyngedig neu’n gyfangwbl ddiffygiol. Nid oedd Byrddau’n deall nodweddion gwarchodedig y plant, yr anghymesuredd a’r gorgynrychiolaeth o rai plant o fewn y system cyfiawnder ieuenctid. Yn anffodus, roedd hyn yn adlewyrchu canfyddiadau o flynyddoedd blaenorol, ac rydym yn annog byrddau rheoli i flaenoriaethu datblygiad strategaethau effeithiol sy’n ystyried ac yn mynd i’r afael ag anghenion amrywiol plant yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Mewn rhai achosion, canfuom gydberthynas rhwng ymrwymiad neu gynrychiolaeth gyfyngedig gan sefydliadau yn y bartneriaeth strategol ar lefel bwrdd, a methiant i flaenoriaethu darparu staff ar secondiad statudol i'r GCI. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y gostyngiad yn nifer yr ardaloedd gyda Swyddogion Prawf ar secondiad yn eu swyddi. Canfuom hefyd fod rhai partneriaethau wedi bod yn brin o ran gweithredu strategol, neu’r bwrdd wedi dangos difaterwch wrth herio diffyg darpariaeth Swyddogion Prawf. Yn ogystal, canfuom enghreifftiau lle’r oedd ansicrwydd ynghylch cyllid ar draws y bartneriaeth wedi arwain at ddiffyg her effeithiol gan y bartneriaeth, yn aml lle’r oedd angen her fwyaf.

## Staff

Mae staff wedi parhau i fod yn un o’r safonau a gafodd y sgôr uchaf yn gyson, ac eleni graddiwyd 90 y cant o’r GCI yn ‘Dda’ neu’n ‘Rhagorol’ am hyn. Mae hwn hefyd yn well darlun o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol (76 y cant yn 2022, ac 85 y cant yn 2021). Nid oes amheuaeth mai'r staff yw'r ased mwyaf mewn llawer o GCIau. Rydym yn gyson wedi dod o hyd i staff uchel eu cymhelliant, ymroddedig ac angerddol sy'n darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae'r staff yn canolbwyntio ar sicrhau'r gorau oll i'r plant y maent yn gweithio gyda nhw, gan fynd gam ymhellach i gefnogi'r plant hynny i gyflawni, a'u helpu i symud i ffwrdd o ystyried eu hunain fel plant sydd wedi cyflawni troseddau. Mae gan lawer o GCIau weithlu sefydlog ac maent wedi dangos eu bod yn gallu cydbwyso gweithio mewn swyddfa a gweithio o bell, gan roi hyblygrwydd i staff a phlant o ran y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

**Ffigur 3: Dosbarthiad sgoriau staffio, Hydref 2022 i Hydref 2023**




Yn nodweddiadol, roedd gan y meysydd a gafodd sgôr ‘Rhagorol’ neu ‘Dda’ uwch arweinwyr, rheolwyr a staff a oedd yn rhannu gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o ddiben, ac yn gweithio gyda’i gilydd i gyflawni hyn. Canfuom fod adnoddau staffio wedi'u cynllunio'n dda, yn cael eu hadolygu'n briodol, a'u bod yn ymatebol i alwadau newidiol. Roedd llwythi gwaith yn hylaw, ac roedd y broses o ddyrannu gwaith yn ystyried anghenion plant a sgiliau ymarferwyr, ac yn adeiladu ar berthnasoedd a oedd yn bodoli eisoes os oedd plant eisoes yn hysbys i weithwyr proffesiynol. Roedd hyn yn golygu bod cydberthynas wrth wraidd gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma. Gwelsom bartneriaethau a oedd yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi diwylliant o ddysgu. Roedd cefnogaeth a her gref, ac ymrwymiad clir i ddatblygu staff.

Canfuom yn aml fod staff yn mabwysiadu ymagwedd gref tuag at eu gwaith a oedd wedi’i llywio gan blant yn gyntaf, ac a oedd yn seiliedig ar drawma. Roeddent yn deall anghenion amrywiol y plant a’u profiadau byw, ac roeddent yn hyderus wrth drafod y rhain yn sensitif ac yn briodol. Gwelsom GCIau lle'r oedd y grwpiau staff yn adlewyrchu'n fras amrywiaeth y boblogaeth leol, ac achosion lle defnyddiwyd recriwtio wedi'i dargedu i gynyddu amrywiaeth staff a gwirfoddolwyr. Roedd rheolwyr gwasanaeth hefyd yn helpu ymarferwyr i fyfyrio ar eu gwybodaeth, eu profiadau byw, a'u dealltwriaeth, ac yn eu cefnogi gyda goruchwyliaeth reolaidd, goruchwyliaeth glinigol, llunio achosion, a chyfleoedd ymarfer myfyriol. Roedd hyn yn eu galluogi i fod yr ymarferwyr gorau posibl.

Yn y meysydd a gafodd sgôr uchel, roedd staff yn hyderus wrth fynd at reolwyr am gyngor ac arweiniad. Roedd ffocws cryf ar greadigrwydd ac arloesedd, tystiolaeth o gynllunio olyniaeth, a dathliad o waith da.

I'r gwrthwyneb, yn y gwasanaethau a gafodd eu graddio 'Angen gwelliant', canfuom yn aml broblemau o ran cadw a recriwtio staff a oedd yn arwain at fylchau rhwng llenwi swyddi, lefelau staffio annigonol a llwythi gwaith na ellid eu rheoli. Gwelsom rai achosion o drosiant staff uchel, salwch, diffyg cyfleoedd hyfforddi neu sefydlu priodol, morâl staff gwael, a goruchwyliaeth a rheoli gwael, a fethodd â gwella arfer.

**Graddio Gorllewin Berkshire yn 'Rhagorol' ar gyfer staff**

Yng Ngorllewin Berkshire canfuom drefniadau staffio cryf. Roedd holl staff y GCI yn benderfynol o alluogi pob plentyn i ffynnu. Roeddent yn hynod uchelgeisiol ar gyfer y plant yr oeddent yn eu cefnogi a byddent yn mynd yr ail filltir iddynt, dro ar ôl tro, i sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau i ffynnu a llwyddo.

Rhoddodd rheolwyr sylw manwl i ddiogelwch a lles staff, a oedd yn adeiladu hyder a gwydnwch ar draws y gwasanaeth. Roedd y staff yn derbyn goruchwyliaeth un-i-un a grŵp rheolaidd, ac roedd hyn yn eu galluogi i ddysgu a gwella ansawdd y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu i blant. Dywedodd yr holl staff fod ansawdd yr oruchwyliaeth yn 'dda iawn'. Roedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn amrywiol, ac anogwyd staff i gymryd rhan ynddynt a symud ymlaen i rolau eraill.

Fel grŵp staff, roeddent yn cefnogi ei gilydd yn rhagorol. Creodd hyn ddiwylliant lle teimlai pawb eu bod yn perthyn a bod ganddynt ran bwysig i'w chwarae.

## Adborth arolwg staff

Ar gyfer pob arolygiad rydym yn rhoi'r cyfle i holl staff y GCIau gwblhau arolwg sy'n gofyn am eu profiadau a'u barn ar weithio yn eu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Ar draws yr 20 Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a arolygwyd gennym yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, cawsom gyfanswm o 612 o ymatebion, gyda 530 o'r rhain wedi'u cwblhau'n llawn ac 83 wedi'u cwblhau'n rhannol.

Roedd y staff GCI hyn o ystod eang o rolau: roedd 37 y cant yn rheolwyr achos, 15 y cant yn rheolwyr, 11 y cant yn staff ar secondiad (o'r heddlu, y gwasanaeth prawf, addysg neu iechyd), wyth y cant yn staff gweinyddol neu gymorth, saith y cant yn weithwyr dioddefwyr neu weithwyr cyfiawnder adferol a'r 14 y cant sy'n weddill o gategorïau eraill.[9] Roedd pedwar deg un y cant o staff yn gofalu am achosion y tu allan i'r llys, roedd bron i draean yn gofalu am achosion llys a 15 y cant yn gofalu am achosion ailsefydlu.

Roedd y staff yn eithaf profiadol ar y cyfan: roedd 41 y cant wedi gweithio yn y GCI am fwy na phum mlynedd; 16 y cant am dair i bum mlynedd; 21 y cant am flwyddyn i ddwy flynedd; ac roedd 23 y cant wedi bod yn gweithio i'r GCI am lai na blwyddyn.

Roedd 70 y cant o'r staff yn fenywod, un rhan o bump yn ddynion a naw y cant yn dewis peidio â datgan eu rhyw.

[9] Gall y niferoedd yma greu cyfanswm o fwy na 100%, oherwydd gall staff gael mwy nag un rôl.

| | |
|---|---|
| | Roedd y staff yn amrywio'n fawr o ran oedran: roedd 14 y cant rhwng 18 a 30 oed; roedd 25 y cant yn 31 i 40; roedd 27 y cant yn 41 i 50; roedd 18 y cant yn 51 i 60; ac roedd pedwar y cant dros 60. Dewisodd tri ar ddeg y cant o'r staff beidio â dweud wrthym beth oedd eu hoedran. |
| | Roedd mwyafrif llethol y staff o ethnigrwydd gwyn (76 y cant), gyda niferoedd bach yn unig o gefndiroedd Du (7 y cant), Asiaidd (3 y cant) a chymysg neu luosog o gefndiroedd ethnig (3 y cant). Roedd yn well gan un ar ddeg y cant o staff beidio â datgan eu cefndir ethnig. |
| | Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn llawn amser (82 y cant). Roedd 13 y cant o'r ymatebwyr yn staff rhan-amser ac roedd yn well gan bump y cant beidio â datgelu eu patrwm gwaith. |

**Mae adborth allweddol o'r arolwg staff yn cynnwys:**


- Roedd staff y GCI yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn nhrefniadau partneriaeth y GCI, gyda 94 y cant yn dweud eu bod yn deall y rhain yn eithaf da neu'n dda iawn.
- Roedd dealltwriaeth staff o weithgareddau'r bwrdd rheoli yn amrywio, gyda 29 y cant yn dweud nad oeddent yn ymwybodol iawn neu'n gwbl anymwybodol o'r rhain.
- Nid oedd staff bob amser yn gwbl glir ynghylch diweddariadau i faterion strategol fel cyllidebau, deddfwriaeth a staffio, gyda 30 y cant yn dweud mai dim ond yn achlysurol y cânt eu diweddaru neu nad oeddent yn cael eu diweddaru o gwbl.
- Teimlai staff eu bod yn gallu herio eu rheolwyr a darparu syniadau, gyda dim ond wyth y cant yn dweud mai anaml neu byth y byddent yn gwneud hynny. Dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod yn gwneud hynny'n aml.
- Roedd staff wedi'u cymell yn dda gan eu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, gyda 94 y cant yn dweud bod y GCI wedi eu cymell i raddau helaeth neu i ryw raddau.
- Teimlai staff y GCI eu bod yn ddigon profiadol a chymwys i reoli eu llwyth achosion, gyda 56 y cant yn dweud eu bod yn gymwys i raddau helaeth, a 30 y cant yn dweud eu bod yn eithaf cymwys.
- Dywedodd naw deg tri y cant o ymatebwyr fod amlder eu goruchwyliaeth yn gywir, a dywedodd 95 y cant ei fod naill ai'n dda iawn neu'n eithaf da.
- Roedd staff y GCI yn eithaf cadarnhaol ynghylch y gydnabyddiaeth o waith eithriadol, gyda 93 y cant o staff yn dweud bod gwaith o'r fath bob amser (54 y cant) neu weithiau (39 y cant) yn cael ei gydnabod.
- Teimlai'r staff fod eu hanghenion hyfforddi a datblygu'n cael eu bodloni'n llawn 50 y cant o'r amser, ac yn cael eu bodloni i raddau helaeth 42 y cant. Teimlai wyth y cant nad oedd eu hanghenion yn cael eu bodloni'n aml neu o gwbl.
- Dywedodd rhai aelodau o staff fod ganddynt lwythi achosion rhy uchel a soniwyd yn aml am y rhesymau am hyn, megis diffyg cadw staff, cyfraddau salwch uchel a gormod o swyddi gwag. Roedd llwythi achosion uchel yn aml yn achos meysydd eraill i'w gwella, megis morâl isel y staff, gormod o waith papur, a darpariaeth annigonol ar gyfer lles staff. Fodd bynnag, roedd yr adborth hwn wedi'i gyfyngu i GCIau penodol, ac nid oedd yn gyffredinol ar draws y meysydd a arolygwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

- Cododd y staff hefyd ansawdd goruchwyliaeth gan reolwyr lle nad oedd gan y rheolwr gefndir cyfiawnder ieuenctid, ac nid oedd yn gallu darparu'r oruchwyliaeth o'r ansawdd yr oedd y staff ei eisiau a'i angen.
- Cododd staff hefyd faterion ynglŷn â materion gweithredol, megis awydd am farn fwy proffesiynol, gweithio'n well ar draws timau, mwy o ffocws ar sefydlu plant a gweithio'n uniongyrchol gyda'r person ifanc, yn hytrach nag asesiadau a gwaith papur, darpariaeth fwy lleol, gwell systemau rheoli achosion, a mwy o gymorth ar gyfer gweithio ar drais ieuenctid difrifol.

## Partneriaethau a gwasanaethau

Mae pŵer partneriaeth yn hollbwysig i GCIau. Yn wir, mae eu bodolaeth yn dibynnu ar ymrwymiad partneriaeth a chyfrifoldeb statudol. Er mwyn i GCIau weithredu'n effeithiol, rhaid i bartneriaid neilltuo amser, adnoddau ac ymdrech. Mae angen iddynt ddeall y rôl hanfodol y mae pob partner yn ei chwarae a'r cyfraniad unigryw a wnânt. Pan fydd partneriaethau'n gweithredu'n effeithiol, gallant fod yn drawsnewidiol. Fodd bynnag, pan fo'r ymrwymiad partneriaeth yn ddiffygiol neu'n amrywiol, gall wneud y broses o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn ansicr, gan achosi ansefydlogrwydd, ansicrwydd ac, yn y pen draw, methiant i ddiwallu anghenion y plant a'r dioddefwyr y mae'r bartneriaeth wedi'i chynllunio i'w cefnogi a'u hamddiffyn. Eleni, mae 75 y cant o'r GCI wedi cael sgôr 'Rhagorol' neu 'Dda' ar gyfer partneriaethau a gwasanaethau, gostyngiad bach iawn ers y llynedd (76 y cant).

**Ffigur 4: Dosbarthiad sgoriau partneriaeth a gwasanaethau, Hydref 2022 i Hydref 2023**




Yn yr ardaloedd a sgoriodd yn dda, canfuom gryfder fel arfer yn y dadansoddiad strategol a gweithredol o anghenion plant. Roedd y bartneriaeth yn canolbwyntio ar nodi a lliniaru unrhyw gynrychiolaeth anghymesur o blant o fewn y GCI, ac roedd wedi ymrwymo i ddarparu'r adnoddau cywir ar yr amser cywir i holl blant y GCI. Yn yr un modd â'r llynedd, roedd yr ardaloedd a oedd yn perfformio orau wedi sefydlu dull sy'n seiliedig ar y plentyn yn gyntaf ac wedi'i lywio gan drawma ar draws y bartneriaeth. Cyflwynwyd ymyriadau i safon

gyson uchel, a oedd yn dangos ansawdd gweithio mewn partneriaeth. Roedd y plant yn gallu cael mynediad at ystod o wasanaethau a chymorth, a llwybrau penodol ar gyfer darpariaeth arbenigol ac amserol wedi'i thargedu. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd trefniadau i gefnogi dioddefwyr a darparu arfer adferol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Gwelsom hefyd fwy o ffocws ar gynnwys cymunedau lleol yng ngwaith y gwasanaeth, yn ogystal â recriwtio gwirfoddolwyr lleol.

Mae llawer o GCIau yn blaenoriaethu llwybrau niwroddatblygiadol amserol a phriodol yn gynyddol, ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod plant y GCI yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae GCIau wedi'u lleoli fwyfwy mewn cyfarwyddiaethau gwasanaethau plant, a gwelsom rai enghreifftiau da o gydweithio â gofal cymdeithasol plant; trefniadau cydlynol, effeithiol a chadarn i reoli plant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio; a darpariaeth arbenigol ar gyfer plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Gwelsom hefyd wasanaethau lle'r oedd ymarferwyr yn blaenoriaethu anghenion llety plant a theuluoedd, ac yn gwneud cysylltiadau effeithiol rhwng y GCI a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cydweithio â'r GCIau (yn aml ag aelod o staff yn gweithio o fewn y GCI). Roedd gan y plant fynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ac ymarferwyr iechyd, a oedd yn eu cefnogi gyda'u hanghenion iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol. Gwelsom hefyd rai enghreifftiau cadarnhaol o drefniadau pontio effeithiol gyda gwasanaethau prawf a chysylltiadau da â llysoedd a dedfrydwyr. Gwelsom wasanaethau arloesol a chreadigol ar gyfer plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a merched – lle'r oedd gwasanaethau'n cydnabod eu hanghenion unigryw, ac yn teilwra darpariaeth partneriaeth i fodloni'r rhain.

Fodd bynnag, gwelsom hefyd wasanaethau lle nad oedd proffil ac anghenion plant y GCI wedi'u nodi na'u dadansoddi'n ddigonol, naill ai'n weithredol nac yn strategol. Roedd hyn yn golygu nad oedd y bartneriaeth yn glir ynghylch pa adnoddau oedd eu hangen i ddarparu gwasanaethau effeithiol wedi'u targedu'n dda. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd ystod, swm ac ansawdd y gwasanaethau yn ddigonol i ddiwallu anghenion amrywiol plant y GCI, neu lle nad oedd staff yn gwybod sut i gael mynediad at y ddarpariaeth neu'r llwybrau cywir. Gwelsom adnoddau'n cael eu torri neu eu lleihau, plant yn gorfod aros am gyfnodau hir ar restrau aros hirion, ac achosion lle nad oedd anghenion plant yn cael eu bodloni, ac nad oedd eu nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried.

Gwelsom hefyd lawer o enghreifftiau o baneli partneriaeth, paneli rheoli risg amlasiantaethol neu baneli diogelwch a llesiant, nad oeddent, er eu bod yn ganmoladwy o ran dod â phartneriaid ynghyd a hwyluso dulliau cydweithredol, bob amser yn gydlynol nac yn effeithiol o ran cadw plant neu eraill yn ddiogel.

Canfuom fod gwneud iawn yn aml yn cael ei danddefnyddio, neu fod opsiynau cyfyngedig ar gael i blant. Nid oedd gwasanaethau i ddioddefwyr yn cael eu blaenoriaethu'n ddigonol, ac roedd swyddi gweigion neu fylchau mewn rolau arbenigol wedi arwain at oedi sylweddol cyn i blant dderbyn y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Canfuom hefyd fod diffyg adolygu, monitro neu sicrwydd ansawdd weithiau'n golygu nad oedd partneriaid yn mynd ati'n rhagweithiol i werthuso effaith ac effeithiolrwydd yr adnoddau neu'r gwasanaeth yr oeddent yn eu darparu. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at ei diddymu.

Mae ein harolwg staff yn gofyn i staff am eu barn ar wasanaethau partneriaeth:

- Dywedodd 76 y cant o staff y GCI fod ganddynt bob amser neu gan amlaf fynediad digonol at wasanaethau, ymyriadau ac adnoddau partneriaeth yr oedd eu hangen arnynt.

- Dywedodd 51 y cant o staff y GCI eu bod bob amser yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau partneriaid a darparwyr yn dda iawn, a dywedodd 42 y cant eu bod weithiau'n gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau.

Dywedodd rhai staff nad oedd ganddynt, yn eu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, fynediad digonol at swyddogion arbenigol ar gyfer meysydd fel goruchwylio ac arolygu dwys (ISS), cymorth mechnïaeth, gwaith llys a CAMHS. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd rhai nad oeddent yn cael digon o gymorth gan asiantaethau partner megis addysg, iechyd a'r heddlu. Roedd rhai aelodau o staff hefyd eisiau perthynas waith agosach â gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol plant.

Roedd staff yn aml yn nodi bylchau yn y gwasanaethau a’r ymyriadau sydd ar gael i bobl ifanc. Y mwyaf cyffredin oedd cymorth iechyd meddwl annigonol, gyda CAMHS yn cael ei nodi sawl gwaith ar gyfer trothwyon rhy uchel a rhestrau aros hir. Soniodd staff hefyd am absenoldeb gwasanaethau a allai lenwi’r bwlch rhwng CAMHS a gwasanaethau lles. Soniodd sawl un am ddiffyg seicolegydd clinigol a allai gefnogi eu gwaith, boed hynny drwy wasanaethau arbenigol neu ddarpariaeth fewnol. Soniwyd hefyd am fylchau yn y ddarpariaeth iechyd gyffredinol, megis diffyg nyrs fewnol, ac adnoddau annigonol neu ddiffyg adnoddau ar gyfer asesiadau niwrowahaniaeth. Tynnodd staff sylw hefyd at y diffyg opsiynau ar gyfer darpariaeth addysgol amgen ar gyfer y plant hynny â chynlluniau addysg, iechyd a gofal (EHCP) neu nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Amlygwyd ymyriadau yn aml fel bwlch yn y ddarpariaeth am amrywiaeth o wahanol resymau. Nododd staff ymyriadau penodol nad oedd ganddynt yn eu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, megis cymorth dibyniaeth, cyfiawnder adferol, cam-drin domestig, tadau ifanc, therapi lleferydd ac iaith ac atal. Dywedodd rhai fod yr ymyriadau a oedd ganddynt yn hen, wedi dyddio neu nad oeddent yn bodloni’r anghenion presennol, a bod diffyg arloesi yn yr hyn a oedd ar gael. Soniodd staff hefyd am waith yr oeddent am ei ddarparu ond nad oedd ganddynt yr adnoddau ar ei gyfer, megis gweithgareddau cadarnhaol, gwasanaethau ailsefydlu, gwell darpariaeth ISS, ymyriadau sy’n canolbwyntio ar ymatal, cymorth i ddioddefwyr ifanc troseddau, a chymorth i blant o leiafrifoedd ethnig neu grwpiau a orgynrychiolir.

Soniodd sawl aelod o staff am ymyriadau neu gefnogaeth y tu allan i'r GCI oedd yn ddiffygiol, a sut roedd hyn yn gwneud eu gwaith yn galetach. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg llety i blant na allent ddychwelyd adref, neu i deuluoedd a oedd yn gorfod newid cartref i aros yn ddiogel; darpariaeth gyffredinol fel grwpiau ieuenctid; cymorth i rieni; gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc 18 i 25 oed, gan gynnwys gwasanaethau diogelu trosiannol wrth i blant bontio’r bwlch i fod yn oedolion; a diffyg gwasanaethau gan yr awdurdod lleol i atal chwalfa deuluol.

Crybwyllwyd rhai bylchau mwy cyffredinol sawl gwaith, megis rhestrau aros hir, diffyg adnoddau yn gyffredinol, dim strategaeth leol i fynd i’r afael â thrais ieuenctid difrifol, neu ddiffyg ymgysylltu a rhannu gwybodaeth gan bartneriaid cymunedol.

Dywedodd rhai staff nad oeddent yn sicr pa ddarpariaeth oedd ar gael yn lleol a bod angen ymarfer mapio, gyda llwybrau clir yn dangos sut i gael mynediad at y gwasanaethau hynny.

Nododd staff nifer o broblemau gyda'r gweithlu. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg staff, recriwtio gwael a throsiant uchel, yn enwedig mewn perthynas â gweithwyr arbenigol allweddol megis ail-ymgysylltu â mentoriaid addysg, mentoriaid yn fwy cyffredinol, gweithwyr camfanteisio a gweithwyr ieuenctid. Soniodd un aelod o staff fod arbenigwyr a fu’n fewnol yn flaenorol wedi cael eu symud i asiantaethau allanol a dod yn gontractwyr, a bod hyn wedi creu rhwystr i weithio’n agos gyda nhw. Soniodd sawl aelod o staff fod partneriaid a ddylai fod yn cyflenwi gwasanaethau eu hunain yn brin o staff ac yn ei chael hi’n anodd cyflawni’r gwaith.

O ran gweithio mewn partneriaeth, cododd llawer o staff faterion fel cysylltiadau gwael â phartneriaid eraill, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid ehangach; gwaith aml-asiantaeth annigonol; gorddibyniaeth ar yr un darparwyr allanol; a chysylltiadau gwael gyda'r heddlu. Nododd staff hefyd nad oedd unrhyw staff prawf yn eu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

## Secondeion prawf

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, un o'r pryderon hollbwysig a amlygwyd gennym oedd diffyg secondeion Swyddogion Prawf i'r GCIau. Mae'r pryder hwn wedi parhau i dyfu, ac rydym wedi gweld nifer uchel o rolau gwag Swyddogion Prawf yn y GCIau a arolygwyd gennym yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf ddarparu staff ar secondiad i GCIau, fel y nodir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn gweithredu o fewn Fframwaith Partneriaeth Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Lloegr (2020)[10] a'r Protocol Cenedlaethol ar y Cyd ar gyfer Pontio yn Lloegr (Protocol ar y cyd ar gyfer rheoli achosion plant sy'n symud o Dimau Troseddau Ieuenctid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2021).[11] Mae protocol penodol ar gyfer pontio achosion yng Nghymru.[12]

Mae pwrpas a phwysigrwydd y trefniadau secondio hyn yn amrywiol ac yn hollbwysig. Bwriedir i Swyddogion Prawf ar Secondiad gefnogi GCIau gyda gwybodaeth am asesu risg a rheoli, a chefnogi a rheoli'r broses o drosglwyddo achosion plant i oruchwyliaeth oedolion, lle bo hyn yn angenrheidiol ac yn briodol. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd y Swyddog Prawf ar secondiad yn ehangach na chanolbwyntio ar achosion pontio yn unig. Gwyddom, pan fydd trefniadau secondiad yn gweithio'n dda, ein bod yn gweld llawer o fanteision, gan gynnwys rhannu gwybodaeth yn effeithiol, trosglwyddo gwybodaeth (yn enwedig yn ymwneud â risg), a gwell dealltwriaeth o drefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA).

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad blynyddol hwn, canfuom mai dim ond naw o'r 20 GCI oedd â Swyddog Prawf wedi'i secondio yn ei swydd. Mewn tair ardal y trefniant oedd i weithiwr asiantaeth (Swyddog Prawf cymwys) a ariennir gan y Gwasanaeth Prawf i weithio yn y GCI.[13] Mynegwyd pryder gennym am effeithiolrwydd y trefniant yn y gwasanaethau hyn, yn enwedig gan nad oedd gan y gweithwyr fynediad i systemau electronig y Gwasanaeth Prawf (OASys ac n-Delius) neu gysylltiadau cyfyngedig â'r Gwasanaeth Prawf. Er ein bod wedi gweld rhai trefniadau 'Gweithio o amgylch' eraill (fel staff prawf a nodwyd sy'n arwain y cyfnod pontio, neu secondiad Swyddog Gwasanaethau Prawf), nid ydym yn ystyried bod y rhain yn lliniaru effaith absenoldeb yr adnodd statudol hollbwysig hwn i bob GCI.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad blynyddol hwn, fe wnaethom amlygu enghreifftiau o'r mater yn ein hadroddiadau arolygu, megis: 'nid oedd atgyfeiriadau priodol at wasanaethau eraill a cheisiadau am ragor o wybodaeth ganddynt yn cael eu cwblhau fel

---

[10] Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Cymdeithas Rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. (2020). National Probation Service: National Partnership Framework for England Youth Offending Services. Ar gael yn: https://aym.org.uk/national-guidance/

[11] Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2021). Joint national protocol for transitions in England. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/joint-national-protocol-for-transitions-in-england

[12] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2020). Egwyddorion a chanllawiau ar gyfer pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5fb7a84ee90e077ed8b988dc/Y2A_Principles_and_Guidance_Wales__CYM_.pdf

[13] Hackney, Greenwich a Swydd Northampton.

mater o drefn. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gyda'r heddlu a'r gwasanaeth prawf i archwilio a gwirio risgiau posibl gan oedolion'.

Ar y llaw arall, pan oedd Swyddog Prawf ar secondiad yn ei swydd, gallem weld y manteision yr oeddent yn eu dwyn i'r GCIau a'r plant yr oeddent yn eu cefnogi. Er enghraifft, ysgrifennodd un arolygydd: 'Mae Swyddog Prawf ar secondiad yn arwain ar bontio, ac mae proses drylwyr ar waith sy'n addysgu gweithwyr proffesiynol ac yn cefnogi pobl ifanc. Pan ddaw pobl ifanc dros 18 oed i sylw'r Gwasanaeth Prawf, cysylltir â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i wirio a yw'r person ifanc wedi bod yn hysbys iddynt o'r blaen.'

Mae lefel secondiadau'r Gwasanaeth Prawf i GCIau wedi bod yn bryder cyson mewn arolygiadau yn ystod y cyfnod hwn. Gwnaethom nodi amrywioldeb y trefniadau yn 2021, ac yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf (2022), dywedodd y Prif Arolygydd, 'rydym yn parhau i weld swyddi prawf gwag yn y gwasanaethau lleol yr ymwelwn â hwy - mater y codais bryderon yn ei gylch yn fy adroddiad blynyddol diwethaf. Er fy mod yn cydnabod y pwysau sydd ar y Gwasanaeth Prawf i fodloni ei ofynion staffio ei hun, mae ganddo rwymedigaeth statudol i lenwi'r rolau hyn, sy'n hanfodol i bontio plant yn effeithiol o GCI i wasanaethau prawf oedolion ac i asesu a rheoli risg. Wrth i sefyllfa staffio'r Gwasanaeth Prawf wella dros y flwyddyn i ddod, disgwyliaf i'r swyddi hyn gael eu llenwi fod yn flaenoriaeth bwysig'. Fodd bynnag, mae ein harolygiadau yn ystod 2022/2023 yn awgrymu nad yw'r disgwyliad wedi'i fodloni.


Yn adroddiad blynyddol Arolygiaeth Prawf EF ar wasanaethau prawf (2022/2023), fe wnaethom amlinellu pam nad yw effaith recriwtio cynyddol i'r Gwasanaeth Prawf wedi golygu gwell gallu i ddarparu pobl i'r swyddi ar secondiad gofynnol mewn GCIau: 'mae'r cynnydd sylweddol mewn Hyfforddiant Swyddogion Prawf wedi cael effaith gyfyngedig ar lefelau staffio cyffredinol. Un rheswm am hyn yw bod nifer y staff sy'n gadael y gwasanaeth hefyd wedi cynyddu'n sylweddol'. Mae ein harolygiadau ieuenctid yn y cyfnod hwn yn ein harwain i gredu bod y sefyllfa o ran i ba raddau y gall gwasanaethau prawf ddarparu staff ar secondiad i GCI yn gwaethygu, yn hytrach na gwella, a'i fod yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder mawr.

## Gwybodaeth a chyfleusterau

Wrth arolygu gwybodaeth a chyfleusterau, rydym yn disgwyl i wybodaeth amserol a pherthnasol fod ar gael a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi ymagwedd bersonol ac ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. Rydym yn archwilio a oes polisïau a chanllawiau priodol ar waith ac a yw amgylchedd y GCI yn bodloni anghenion pob plentyn ac yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Rydym hefyd yn ystyried a yw systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol yn galluogi ac yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau, ac yn archwilio a yw'r GCI yn defnyddio dadansoddiadau, tystiolaeth a dysgu yn effeithiol i ysgogi gwelliant.

Mae'n braf gweld bod 80 y cant o'r GCIau a arolygwyd yn y cyfnod hwn wedi'u graddio'n 'Dda' neu'n 'Rhagorol' ar y safon hon, ac rydym wedi gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn hyn ers i'n rhaglen arolygu ddechrau.

**Ffigur 5: Dosbarthiad sgoriau gwybodaeth a chyfleusterau, Hydref 2022 i Hydref 2023**




Yn yr ardaloedd a raddiwyd gennym yn 'Rhagorol' neu'n 'Dda', canfuom amgylcheddau Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a oedd yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gyfeillgar i blant. Roedd staff yn gallu gweithio'n effeithiol ar draws ystod o leoliadau, gan gynnwys swyddfeydd a lleoliadau anghysbell. Roedd gan yr ardaloedd hyn bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau canllaw manwl, lle'r oedd amrywiaeth yn cael ei ystyried drwyddi draw, a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth gref fod sicrwydd ansawdd wedi llywio perfformiad ac wedi arwain at wasanaethau o ansawdd uchel. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan y GCIau ddulliau systematig o feincnodi eu gwaith yn erbyn canfyddiadau o ymchwil newydd ac arolygiadau thematig. Roedd barn y plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu casglu, eu dadansoddi a'u defnyddio'n rhagweithiol i ddylanwadu a llywio darpariaeth gwasanaeth.

Roedd gwybodaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael yn faes y soniodd staff yn aml amdano yn ein harolwg. Dywedasant fod yr amgylchedd lle maent yn darparu gwasanaethau yn addas i blant i raddau helaeth mewn 41 y cant o achosion ac i ryw raddau mewn 45 y cant. Fodd bynnag, y maes a nodwyd amlaf i'w wella oedd y gofod ffisegol y mae timau'r GCI yn byw ynddo. Roedd staff yn aml yn dweud nad oedd ganddyn nhw le i gydweithio â'i gilydd neu nad oedd ganddyn nhw le pwrpasol a phriodol i gwrdd â'r plant.

Soniodd sawl aelod o staff am y materion amrywiol yn ymwneud â daearyddiaeth eu hardal, gan ddweud nad oedd gwasanaethau sydd ar gael mewn un rhan o'u hardal ar gael mewn rhan arall, gan greu loteri cod post i'r plant. Achosodd pellter daearyddol hefyd rywfaint o gyfathrebu gwael rhwng timau o fewn GCIau a oedd wedi'u gwahanu'n ddaearyddol, ac roedd ardaloedd daearyddol mawr yn gofyn i blant deithio am bellteroedd sylweddol, os nad oedd swyddfeydd GCI lleol. Roedd y sefyllfa hon yn ymddangos weithiau fel un o sgîl-effeithiau'r pandemig Covid-19, lle roedd y newid i drefniadau gwaith yn golygu bod gwasanaethau neu gyfleusterau a oedd unwaith ar gael wedi'u colli yn ystod y cyfyngiadau symud, ac nad oeddent wedi dychwelyd wedyn.

Ynghyd â safleoedd, codwyd TG gwael hefyd sawl gwaith, gyda staff naill ai'n methu â chael yr offer yr oedd eu hangen arnynt yn gyflym i wneud eu gwaith, yn cael offer annigonol (fel dyfeisiau gweithio o bell â mynediad rhyngrwyd gwael), neu, lle roedd ganddynt offer priodol, cefnogaeth annigonol pan nad oedd yn gweithio.

# Goruchwylio gorchmynion llys

Yn ein harolygiad o'r gwaith gyda phlant sy'n destun datrysiadau llys, fe wnaethom arolygu 255 o achosion. Mae demograffeg allweddol sy'n ymwneud â'r plant hyn yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| | Roedd mwyafrif y plant yn 17 oed neu'n hŷn (40 y cant), ac yna'n blant 15 i 17 oed (34 y cant). |
| | Roedd y mwyafrif yn ddynion (91 y cant, cynnydd o'r rhif o 86 y cant y flwyddyn flaenorol). |
| | Roedd y mwyafrif o dreftadaeth wyn (61 y cant), gostyngiad ers y llynedd (75 y cant); roedd 36 y cant o dreftadaeth Ddu a lleiafrifoedd ethnig, cynnydd ers y llynedd (23 y cant). Cofnodwyd dau y cant fel 'grwpiau eraill' ac ni chofnodwyd dau y cant yn glir. |
| | Mewn 50 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym, roedd gan y plant anableddau a nodwyd. O'r rheini, roedd gan y mwyafrif anawsterau dysgu (75 o blant), ac yna anabledd gwybyddol (39 o blant) ac yna salwch meddwl (24 o blant). |
| | Roedd mwyafrif y plant a oedd yn destun gorchmynion llys wedi cael gorchmynion atgyfeirio (77 y cant), ac yna gorchmynion adsefydlu ieuenctid (23 y cant). |
| | Roedd troseddau treisgar yn cyfrif am 55 y cant o'r achosion a arolygwyd, ac yna lladrad (naw y cant) a throseddau cyffuriau a moduro (pump y cant). Roedd troseddau rhywiol (cyffwrdd a digyffwrdd) yn cyfrif am bump y cant a bwrgleriaeth am dri y cant o'r achosion a arolygwyd. |
| | Mewn 76 o achosion roedd cyllell yn nodwedd yn y drosedd gyfredol/archwiliedig. Mewn 59 o achosion roedd cyllell wedi bod yn nodwedd mewn troseddau blaenorol. |
| | Mewn 24 y cant o'r achosion a arolygwyd, roedd plant wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol o fewn y cyfnod a arolygwyd: roedd 14 y cant o'r plant hyn yn byw yn yr ardal a gwmpesir gan y GCI, ac roedd 10 yn byw y tu allan i ardal y GCI. |
| | Mewn 32 y cant o achosion, ni chofnodwyd crefydd y plant. |
| | Mewn 72 y cant o achosion, ni chofnodwyd hunaniaeth rywiol y plant. |

Mae ein safonau arolygu ar gyfer achosion llys yn seiliedig ar fodel ASPIRE (asesu, cynllunio, ymyrryd ac adolygu a gwerthuso) ar gyfer goruchwylio achosion. Rydym yn ystyried ansawdd mewn perthynas â (i) cefnogi ymataliad; (ii) cadw'r plentyn yn ddiogel; a (iii) cadw pobl eraill yn ddiogel, ar draws asesu, cynllunio, ymyrryd ac adolygu a gwerthuso.





Ar gyfer pob safon, mae'r sgôr a neilltuir gennym yn cyd-fynd â'r cwestiwn ansawdd allweddol sy'n derbyn y sgôr isaf o ran y ganran o achosion a arolygwyd y barnwyd eu bod yn ddigonol mewn perthynas â chefnogi ymataliad, cadw'r plentyn yn ddiogel, a chadw pobl eraill yn ddiogel. Mae hyn yn cydnabod bod pob elfen yn chwarae rhan yr un mor bwysig wrth weithio gyda phlant sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuenctid.

Asesir pob achos yn ôl ei ddigonolrwydd ar draws yr elfennau allweddol hyn, a chaiff data achos ei agregu i gyflawni sgôr gyffredinol ar gyfer pob safon:

| **Bandio isaf** | **Gradd** |
|---|---|
| Lleiafrif < 50% achos | **Anfoddhaol** |
| Rhy ychydig: 50–64% | **Angen gwelliant** |
| Mwyafrif rhesymol: 65–79% | **Da** |
| Mwyafrif mawr: 80%+ | **Rhagorol** ☆ |

**Ffigur 6: Dosbarthiad graddfeydd ar draws gorchmynion llys, Hydref 2022 i Hydref 2023**[14]




[14] Sylwer: dim ond 19 gwasanaeth a gafodd sgôr, gan fod gan Orllewin Berkshire lai na chwe achos o fewn cyfnod sampl yr arolygiad.

O’r 19 GCI a arolygwyd ac a gafodd sgôr, cafodd pump (26 y cant) radd ‘Rhagorol’ am eu gwaith ar weithgarwch asesu (Coventry, Swydd Lincoln, Knowsley, St Helens, a Barnsley). Derbyniodd wyth sgôr ‘Da’ (42 y cant) a thri ‘Angen gwelliant’ (16 y cant). Cafodd tri sgôr ‘Anfoddhaol’ (16 y cant).


O'i gymharu â'r llynedd, rydym wedi gweld gostyngiad bach yn nifer y gwasanaethau a gafodd eu graddio'n 'Rhagorol' ar gyfer asesiad (i lawr o 28 y cant), cynnydd yn y gwasanaethau a raddiwyd yn 'Dda' (i fyny o 34 y cant), gostyngiad mewn gwasanaethau y nodwyd ‘Angen gwelliant’ (i lawr o 31 y cant) a chynnydd yn y gwasanaethau a gafodd eu graddio’n ‘Anfoddhaol’ (i fyny o chwech y cant).

O’r gwasanaethau a gafodd sgôr am eu gweithgarwch cynllunio, dim ond tri (16 y cant) a gafodd sgôr ‘Rhagorol’ (Swydd Lincoln, Knowsley, a St Helens). Enillodd saith sgôr ‘Da’ (37 y cant) a chafodd wyth (42 y cant) sgôr ‘Angen gwelliant’. Dim ond un GCI (pump y cant) a gafodd sgôr ‘Anfoddhaol’ ar gyfer cynllunio.

O’r gwasanaethau a raddiwyd gennym, cafodd chwech (32 y cant) eu graddio’n ‘Rhagorol’ ar gyfer gweithredu a darparu. Cafodd wyth gwasanaeth sgôr ‘Da’ (42 y cant), tri ‘Angen gwelliant’ (15 y cant) a dau (11 y cant) ‘Anfoddhaol’.

O’r gwasanaethau y gwnaethom eu graddio ar gyfer eu hadolygu, cafodd chwech sgôr ‘Rhagorol’ (32 y cant), cafodd chwech sgôr ‘Da’ (32 y cant), cafodd chwech sgôr ‘Angen gwelliant’ (32 y cant) a graddiwyd un yn 'Anfoddhaol' (pump y cant). Swydd Lincoln a St Helens oedd yr unig wasanaethau ym mhob un o’r 19 o arolygiadau GCI a enillodd raddfeydd ‘Rhagorol’ ar draws pob un o bedair elfen ein harolygiadau parth dau.

Yn ein papur *Mewnwelediadau Academaidd* ym mis Hydref 2023, nododd Ursula Kilkelly negeseuon allweddol o’r llenyddiaeth ymchwil ar gyfer ymagwedd sy’n seiliedig ar dystiolaeth at bolisi ac arfer cyfiawnder ieuenctid. Amlygodd fod pobl ifanc sy’n gwrthdaro â’r gyfraith yn dueddol o fod ag anghenion lluosog, gyda thrafferthion ar lefel yr unigolyn, y teulu a’r gymuned. Amlinellodd ei bod yn amlwg nad yw dulliau un ateb i bawb yn gweithio, a bod angen dull gweithredu unigol, sy’n seiliedig ar hawliau ac sy’n canolbwyntio ar y plentyn, gan drin pob person ifanc yn unol â’i oedran, ei ddatblygiad a’i anghenion penodol. Roedd y papur yn amlinellu bod angen rhoi sylw i sefydlu perthnasoedd cadarnhaol, cefnogol, llawn parch ac ymddiriedus – gyda ffocws ar lais y plentyn – ac i’r cymorth uniongyrchol a hirdymor sydd ei angen i hwyluso datblygiad cymdeithasol cadarnhaol a chynhwysiant cymdeithasol. Roedd y papur hefyd yn cydnabod yr angen i’r sylfaen dystiolaeth esblygu’n barhaus a phontio’r bwlch rhwng ymchwil, polisi ac ymarfer.


HM Inspectorate of Probation

Evidence-based core messages for youth justice

Professor Ursula Kilkelly

HM Inspectorate of Probation

Academic Insights 2023/09

OCTOBER 2023

Ar draws y papur, nodwyd y 10 neges allweddol a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1. Adfyd | Mae pobl ifanc sy'n gwrthdaro â'r gyfraith wedi profi adfyd ar sail unigol, teuluol a chymunedol, ac mae'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn profi cysylltiad anghymesur â'r system gyfiawnder. |
| 2. Datblygiad y glasoed | Dylid ystyried ymddygiad troseddol gan bobl ifanc fel rhan o ddatblygiad y glasoed a'i ystyried yng nghyd-destun amgylchedd cymdeithasol a seicolegol y person ifanc. |
| 3. Gwasanaethau cyffredinol | Gall darparu mynediad at wasanaethau cyffredinol – yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar addysg ac iechyd – atal pobl ifanc rhag gwrthdaro â'r gyfraith. |
| 4. Unigolyddiaeth | Mae ymagwedd unigol, seiliedig ar hawliau a phlentyn-ganolog yn allweddol i atal pobl ifanc rhag gwrthdaro ymhellach â'r gyfraith. |
| 5. Dargyfeirio | Wrth geisio dargyfeirio pobl ifanc sydd wedi gwrthdaro â'r gyfraith, mae'n bwysig bod yn ofalus sut a phryd i ymyrryd, gan sicrhau bob amser eu bod yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol. |
| 6. Perthnasoedd cadarnhaol | Gall datblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng pobl ifanc ac oedolion helpu i atal troseddu/cymryd rhan mewn troseddu pellach. |
| 7. Cadw | Rhaid osgoi defnyddio cadw, a lle y'i defnyddir, rhaid ei addasu i anghenion plant, gan ganolbwyntio ar arfogi plant â'r sgiliau iechyd, addysg a bywyd sy'n sicrhau eu bod yn dychwelyd yn ddiogel i'w cymunedau. |
| 8. Cefnogaeth barhaus | Mae cyfleoedd addysg a chyflogaeth yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc yn osgoi troseddu pellach, ac mae angen rhoi sylw i reoli diwedd unrhyw ymyriad, gan ddarparu cymorth parhaus i'r graddau mwyaf posibl. |
| 9. Cynnwys pobl ifanc | Mae profiadau bywyd pobl ifanc yn amhrisiadwy i lunwyr polisi sy'n ceisio deall natur troseddau ieuenctid, ac mae eu barn yn anhepgor ar gyfer datblygu ymatebion effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn i ymddygiad troseddol. |
| 10. Datblygu'r sylfaen dystiolaeth | Mae angen parhaus am gasglu data cyson, mwy o ymchwil wedi'i ariannu, a gwell perthnasoedd rhwng llunwyr polisi a'r gymuned academaidd er mwyn hyrwyddo ymagweddau blaengar at gyfiawnder ieuenctid. |


## Asesiad

Wrth asesu pob achos yn erbyn ein safonau, mae ein harolygwyr yn llunio barnau ar draws tri chwestiwn allweddol:

- A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?
- A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?
- A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Wrth ystyried asesu yn ein harolygiadau, rydym yn disgwyl i weithgarwch asesu fod yn wybodus, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, ac i gynnwys y plentyn yn ogystal â'i rieni neu ofalwyr. Mae asesu yn cynnwys pob gweithgaredd asesu, nid dim ond paratoi adroddiad ysgrifenedig. Disgwyliwn weld gweithgaredd asesu lle mae’r ymarferydd wedi dadansoddi’n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn, a sut i gadw’r plentyn a phobl eraill yn ddiogel. Rydym yn ystyried a yw’r ymarferydd wedi dadansoddi amrywiaeth a hunaniaeth y plentyn yn ddigonol, wedi defnyddio gwybodaeth gan asiantaethau eraill yn effeithiol, ac wedi canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, yn ogystal ag asesu unrhyw rwystrau strwythurol allweddol sy’n wynebu’r plentyn. Rydym hefyd yn disgwyl gweld ymarferwyr yn ystyried anghenion a dymuniadau dioddefwyr ac yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol.

**Ffigur 7: Goruchwylio gorchmynion llys – canran yr achosion a gafodd sgôr ddigonol yn erbyn cwestiynau allweddol i’w hasesu, 2018 i Hydref 2023[15]**




Mae data o’r pedair blynedd diwethaf yn dangos bod gwaith i ddadansoddi a deall ymataliad plant wedi’i wneud yn gyson dda ac yn y cyfnod adrodd blynyddol hwn, roedd dros 80 y cant o achosion yn gyson foddhaol ar gyfer arfer ymataliad. Gwaith yn ymwneud ag asesu risg o niwed i eraill fu’r maes gwannaf, ac rydym wedi gweld gostyngiad yn hynny ac yn y gweithgaredd asesu i ddadansoddi a deall y risgiau i ddiogelwch a lles plant eleni.

Roedd gan y meysydd a gafodd sgôr uchel ar gyfer gweithgaredd asesu yn ymwneud ag ymataliad themâu cyffredin, a oedd yn cynnwys ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i adnabod

[15] Sylwch, newidiodd ein methodoleg ym mis Gorffennaf 2021; felly, mae dwy set o ddata ar gyfer 2021: un ar gyfer cyn i’r fethodoleg newid, ac un ar gyfer ar ôl hynny.

anghenion amrywiol plant, a chanolbwyntio ar archwilio ac ystyried hunaniaeth plentyn. Roedd asesu yn gytbwys ac yn seiliedig ar gryfderau, ac roedd plant, rhieni a gofalwyr yn ganolog i asesiadau. Yn gadarnhaol, canfuom ddymuniadau ac anghenion dioddefwyr yn cael eu hystyried yn gyson mewn asesiadau, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol yn cael eu harchwilio.

Yn y meysydd a gafodd sgôr 'Rhagorol' ar gyfer asesu ymataliad a dadansoddiad o sut i gadw plentyn yn ddiogel ac eraill yn ddiogel, canfuom fod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i nodi a dadansoddi materion cymhleth megis trawma, esgeulustod a chamfanteisio. Buont yn archwilio effaith bosibl y rhain ar ymddygiad y plentyn yn y dyfodol ac ar risgiau i'r plentyn ac oddi wrtho, a dadansoddwyd y rheolaethau mewnol ac allanol a fyddai'n hybu diogelwch y plentyn ac eraill. Canfuom hefyd fod gan ymarferwyr ddealltwriaeth well o ddosbarthiadau risg a'u bod yn darparu tystiolaeth glir a rhesymeg i gefnogi eu dyfarniadau am risg. Cafodd gweithgarwch asesu ei wella drwy brosesau asesu eraill, megis llunio achosion (Swydd Lincoln) neu bob plentyn yn cael asesiad iechyd (Knowsley).


Mewn meysydd lle'r oeddem yn ystyried bod gweithgarwch asesu yn gyson annigonol, roedd nifer o themâu cyffredin. Roedd y rhain yn cynnwys defnydd aneffeithiol o wybodaeth a gedwir gan wasanaethau eraill, neu beidio â chasglu gwybodaeth a gedwir gan wasanaethau eraill. Mewn rhai achosion, roedd perthnasoedd gwael gyda phartneriaid wedi ei gwneud yn anodd cael gwybodaeth. Roedd hyn yn golygu bod asesiadau risg a dosbarthiadau risg yn aml yn cael eu gwneud ar wahân. Rydym hefyd wedi dod o hyd i fwy o asesiadau lle mae'r ymarferydd wedi canolbwyntio ar y drosedd fynegai a heb ddadansoddi nac ystyried ymddygiad blaenorol, cudd-wybodaeth yr heddlu, neu ddigwyddiadau newydd. Rydym yn pryderu, mewn ymdrechion i osgoi labelu plentyn neu i ddefnyddio dull 'llai yw mwy' o asesu, bod ymarferwyr yn methu ag ystyried neu anwybyddu ymddygiad neu weithgareddau pryderus blaenorol. Yn yr achosion hyn, canfuom nad oedd natur, cyd-destun ac agosrwydd risgiau wedi'u harchwilio na'u dadansoddi'n ddigonol. Nid oedd pryderon y gallai plant eu cyflwyno i eraill yn cael eu hystyried yn ddigonol, ac roedd gweithgarwch asesu yn tueddu i fod yn gryno, yn brin o fanylion, ac nid oedd yn dangos tystiolaeth ddigonol o'r rhesymeg dros asesiadau risg. Roedd hyn hefyd yn golygu bod risgiau'n cael eu tanamcangyfrif ac nid oedd yr holl risgiau posibl i'r plentyn ac oddi wrtho wedi'u nodi. Gwelsom hefyd rai achosion o orddibyniaeth ar y plentyn yn hunan-adrodd, a diffyg chwilfrydedd proffesiynol wrth ddadansoddi gwybodaeth gan y plentyn ac asiantaethau eraill i gael dealltwriaeth gadarn o'r pryderon. Gwelsom hefyd nifer uchel o achosion lle nad oedd crefydd neu hunaniaeth rywiol y plentyn wedi'u cofnodi. Mae hyn yn ein harwain i gwestiynu pa mor effeithiol y mae GCIau yn ymateb i anghenion amrywiol plant os nad yw gwybodaeth fel hon yn cael ei chofnodi na'i harchwilio.

## Cynllunio

Wrth ystyried cynllunio, disgwyliwn i weithgareddau cynllunio fod yn wybodus, yn gyfannol ac wedi'u personoli, tra'n cynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn weithredol. Rydym yn arolygu yn erbyn y cwestiynau allweddol canlynol:

- A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?
- A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?
- A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

**Ffigur 8: Goruchwylio gorchmynion llys – canran yr achosion a gafodd sgôr ddigonol yn erbyn cwestiynau allweddol ar gyfer cynllunio, 2018 i Hydref 2023**[16]




Roedd gan y GCIau a gafodd raddfeydd 'Rhagorol' ar gyfer cynllunio sawl nodwedd yn gyffredin. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgarwch asesu effeithiol yn cael ei drosi'n weithgarwch cynllunio cryf, gyda chynlluniau wedi'u dilyniannu, yn gymesur ac wedi'u targedu. Roedd ymarferwyr yn cydbwyso meysydd pryder yn effeithiol â chryfderau, yn ystyried anghenion a dymuniadau dioddefwyr, ac yn mynd i'r afael ag anghenion diogelwch dioddefwyr posibl a gwirioneddol, tra'n sicrhau bod anghenion y plentyn yn ganolog. Eleni, canfuom hefyd fwy o achosion o brosesau neu reolaethau yn cael eu rhoi ar waith i liniaru a mynd i'r afael â phryderon a monitro risgiau. Yn ogystal, eleni canfuom enghreifftiau cryf o gynllunio'n cael ei gydgysylltu â gwasanaethau eraill i reoli risg a diogelwch, a mwy o bwyslais ar gydgyfrifoldeb ac atebolrwydd am reoli pryderon i blant ac oddi wrthynt.

Lle canfuom ddiffygion mewn gweithgaredd asesu, roedd y rhain yn aml yn cael effaith ar gynllunio, yn enwedig cynllunio ar gyfer diogelwch a lles y plentyn ac i gadw pobl eraill yn ddiogel. Roedd rhai GCIau yn tanamcangyfrif y risg, a gwelsom achosion lle nad oedd ymyriadau a rheolaethau critigol i hybu diogelwch wedi'u nodi a'u trin wrth gynllunio, megis atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol (timau CAMHS, camddefnyddio sylweddau, camfanteisio). Gwelsom hefyd enghreifftiau o ymgysylltu a chydgysylltu gwael â phartneriaid allweddol, megis peidio â cheisio gwybodaeth gan bartneriaid neu eu cynnwys yn y gwaith cynllunio, partneriaid ddim yn cydnabod eu rôl o ran cefnogi'r GCI i hybu diogelwch (ac felly'n peidio â mynychu cyfarfodydd rheoli risg) a chynlluniau nad ydynt yn yn cyd-fynd â gwasanaethau eraill. Canfuom hefyd fod rhai ardaloedd yn ei chael yn anodd cael gwybodaeth gan bartneriaid allweddol megis yr heddlu, gofal cymdeithasol plant ac addysg. Mewn rhai meysydd, roedd cynllunio yn gofyn am fwy o fewnbwn gan bartneriaid diogelu'r cyhoedd i gefnogi'r gwaith oedd yn cael ei wneud. Yn y GCIau a sgoriodd yn wael, canfuom yn nodweddiadol hefyd fod cynllunio wrth gefn ar gyfer risgiau i'r plentyn ac oddi wrth y plentyn yn wan, heb ei deilwra i'r plentyn na'r risgiau a oeddynt yn amlygu'i hunain, ac wedi methu â nodi'r ymatebion neu'r camau gweithredu priodol pe bai risgiau'n newid.

[16] Sylwch, newidiodd ein methodoleg ym mis Gorffennaf 2021; felly, mae dwy set o ddata ar gyfer 2021: un ar gyfer cyn i'r fethodoleg newid, ac un ar gyfer ar ôl hynny.

Er clod iddynt, cyflawnodd GCI St Helens raddfeydd 'Rhagorol' mewn asesu a chynllunio ar draws ymataliad, diogelwch y plentyn a chadw pobl eraill yn ddiogel.


## Gweithredu a darparu

Wrth ystyried gweithredu a darparu, rydym yn disgwyl i GCIau ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, â ffocws da, wedi'u personoli ac wedi'u cydlynu sy'n ymgysylltu â phlant ac yn eu cynorthwyo. Disgwyliwn weld gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol plant, yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, ac yn ystyried mynediad at wasanaethau i'r plentyn pan fydd y gorchymyn llys wedi dod i ben. Disgwyliwn weld y bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen fwyaf ar blentyn, mewn modd amserol ac effeithiol.

Rydym yn arolygu yn erbyn y cwestiynau allweddol:

- A yw gweithredu a darparu'r gwasanaeth yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?
- A yw gweithredu a darparu'r gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?
- A yw gweithredu a darparu'r gwasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

**Ffigur 9: Goruchwylio gorchmynion llys – canran yr achosion y barnwyd eu bod yn ddigonol yn erbyn cwestiynau allweddol ar gyfer gweithredu a darparu, 2018 i Hydref 2023.**[17]




Eleni rydym wedi gweld gostyngiad bach yn ein graddfeydd ar gyfer gweithredu a darparu ar draws ymataliad, diogelwch a lles plant, a chadw eraill yn ddiogel, er bod y tri yn parhau i fod yn uwch na 70 y cant o'r hyn a ystyriwn yn ddigonol.

Roedd y GCI a enillodd raddfeydd 'Rhagorol' yn cydnabod pwysigrwydd cael ymarferwyr sy'n fedrus wrth ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda phlant. Arweiniodd hyn at lefelau uchel o ymgysylltu â phlant, rhieni a gofalwyr, a'r plant yn cael eu cynnwys yn

[17] Sylwch, newidiodd ein methodoleg ym mis Gorffennaf 2021; felly, mae dwy set o ddata ar gyfer 2021: un ar gyfer cyn i'r fethodoleg newid, ac un ar gyfer ar ôl hynny.

ystyrlon yn y ddarpariaeth. Gwelsom fynediad amserol at ystod eang o wasanaethau arbenigol, naill ai'n fewnol neu drwy lwybrau clir. Roedd y rhain yn cynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu, seicolegwyr, ac ymarferwyr iechyd. Gwelsom enghreifftiau o waith trawiadol, cydgysylltiedig gyda staff arbenigol, megis seicolegwyr clinigol a therapyddion lleferydd ac iaith, a gwaith effeithiol gyda a chan weithwyr camddefnyddio sylweddau. Elfen allweddol gweithredu effeithiol oedd dull seiliedig ar gryfderau a oedd yn cydnabod ac yn targedu meysydd o bryder, ond hefyd yn canolbwyntio ar adeiladu ymataliad y plentyn a’r pethau cadarnhaol yn eu bywydau. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant priodol, integreiddio â gwasanaethau prif ffrwd, cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol, a mynediad at fentoriaid. Roedd y plant yn gallu gwneud gwaith gwneud iawn a ddatblygodd eu sgiliau a'u cryfderau yn ogystal â bod yn adferol i'r gymuned, rhywbeth y gwelsom dystiolaeth ohono yn Southwark. Gwelsom hefyd rai enghreifftiau gwych o blant yn gallu ennill cymwysterau trwy waith a ddarperir gan y GCIau neu eu partneriaid.

Yn y GCIau a gafodd sgôr uchel, canfuom gydlyniant a chydgysylltu cryf gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth pan ddigwyddodd digwyddiadau, ond hefyd trwy fforymau aml-asiantaeth effeithiol. Yn Knowsley, nododd yr arolygwyr waith cadarnhaol gyda rhieni gan y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a dioddefwyr, a oedd yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael darpariaeth briodol fel teulu. Gwelsom hefyd waith trawiadol i ddiwallu anghenion amrywiol plant. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn addasu eu gwaith i ystyried anghenion dysgu’r plant, ac yn canolbwyntio ar hunaniaeth a phrofiadau byw y plentyn wrth weithio gyda nhw. Fodd bynnag, hyd yn oed ar gyfer y GCIau hynny oedd yn perfformio orau, nid oedd diwallu anghenion amrywiaeth plant bob amser yn gryfder cyson.

Lle'r oedd angen cryfhau'r gwaith, canfuom yn nodweddiadol enghreifftiau o gynlluniau nad oeddent yn cael eu dilyn wrth gyflawni, neu waith hanfodol yn cael ei nodi ond heb ei gyflawni. Yn debyg i'r llynedd, canfuom rai enghreifftiau o arferion risg a diogelwch aneffeithiol, megis rhannu gwybodaeth yn wael; risg a diogelwch ddim yn cael eu gweld fel cyfrifoldeb y bartneriaeth; a phartneriaid nad ydynt wedi ymrwymo i fforymau neu baneli amlasiantaethol sydd wedi'u cynllunio i reoli pryderon, nac yn ymgysylltu'n gyson â hwy.

Roedd ein *Bwletin Ymchwil a Dadansoddi* ym mis Mehefin 2023 yn archwilio pwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn effeithiol o fewn y bartneriaeth, a pha mor drawsnewidiol y gall fod pan fydd asiantaethau’n cydweithio’n effeithiol ar gyfer plant sydd mewn perygl o niwed y tu allan i’r teulu (EFH). Wedi’i gynhyrchu gan yr Athro Carlene Firmin a chydweithwyr o Brifysgol Durham, roedd y bwletin yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil a oedd yn archwilio’r defnydd o ddiogelu cyd-destunol o fewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Canfu’r astudiaeth lawer o gefnogaeth a diddordeb mewn mabwysiadu dull diogelu cyd-destunol.

Fodd bynnag, ar adeg cyhoeddi canfuwyd nad oedd diogelu cyd-destunol wedi'i fabwysiadu ar draws y gwasanaeth mewn unrhyw GCI eto, a bod dealltwriaeth o'r hyn y mae hyn yn ei olygu yn parhau i fod yn gyfyngedig. Nododd hefyd fod gweithgareddau rhannu gwybodaeth yn aml yn cael eu cynnal i hwyluso gwaith tarfu ar ddiogelwch cymunedol, yn hytrach na chefnogi asesu lles plant ac ymyrryd mewn cyd-destunau y tu allan i’r teulu.

Er mwyn helpu gwasanaethau i symud ymlaen, argymhellodd yr ymchwilwyr y canlynol:

- Mae angen llwybr diogelu clir ar bob GCI ar gyfer atgyfeirio cyd-destunau lle'r oedd EFH yn bryder ac angen nodi llwybrau ar gyfer gwneud atgyfeiriadau diogelu yn ymwneud â chyd-destunau sy'n gysylltiedig ag EFH
- Defnyddio cyfarfodydd goruchwylio a fformiwleiddio i nodi cyd-destunau lle mae pobl ifanc y maent yn eu cefnogi mewn perygl o EFH ac i ba raddau y mae risg yn y cyd-destunau hyn yn newid (ac unrhyw effaith gysylltiedig ar ymddygiad pobl ifanc)

- annog ymarferwyr i gynnwys gweithgareddau mapio diogelwch ac asesu cymheiriaid mewn gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, fel ffordd o nodi'r hyn sy'n gwneud i bobl ifanc deimlo'n ddiogel/anniogel mewn cyd-destunau lle maent yn treulio eu hamser.


## Adolygu

Pan fyddwn yn arolygu adolygu, rydym yn disgwyl gweld adolygiadau gwybodus, dadansoddol a phersonol o gynnydd sy'n cynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn weithredol. Mae adolygu yn broses barhaus, a disgwyliwn weld gwaith sy'n cydnabod ac yn ymateb i unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn, gan gynnwys newidiadau i ddiogelwch a lles y plentyn, ac unrhyw niwed y gallant ei achosi i bobl eraill. Gall adolygiadau ysgrifenedig fod yn rhan o'r broses adolygu, ond disgwyliwn i weithgarwch adolygu fod yn ddeinamig ac yn ymatebol. Dylid cynnal adolygiad parhaus i wirio bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn cael yr effaith a fwriedir, nodi'r hyn sydd wedi bod yn effeithiol a'r hyn sydd wedi'i gyflawni, ac ystyried yr hyn sy'n weddill a beth sydd angen ei ddiwygio neu ei ailgynllunio. Mae'r adolygiad yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr a rheolwyr fod â meddwl ymholgar ac ystyried gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y plentyn, rhieni neu ofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, a'r heddlu.

Wrth asesu pob achos yn erbyn ein safonau, mae ein harolygwyr yn llunio barnau ar draws tri chwestiwn allweddol:

- A yw'r adolygiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?
- A yw'r adolygiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?
- A yw'r adolygiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

**Ffigur 10: Goruchwylio gorchmynion llys – canran yr achosion y barnwyd eu bod yn ddigonol yn erbyn cwestiynau allweddol ar gyfer adolygu, 2018 i Hydref 2023[18]**




[18] Sylwch, newidiodd ein methodoleg ym mis Gorffennaf 2021; felly, mae dwy set o ddata ar gyfer 2021: un ar gyfer cyn i'r fethodoleg newid, ac un ar gyfer ar ôl hynny.

Eleni, mae canran yr achosion y barnwyd eu bod yn ddigonol wrth adolygu gweithgarwch ar gyfer ymatal a diogelwch a lles wedi gostwng o gymharu â’r llynedd, tra bod digonolrwydd mewn perthynas ag adolygu niwed i eraill wedi cynnal sgôr y llynedd o 69 y cant. Mae pob un yn uwch na phan ddechreuodd y rhaglen arolygu yn 2018.

Lle'r oedd gweithgarwch adolygu'n cael ei wneud yn dda, canfuom ei fod yn cael ei wneud mewn modd deinamig, ystyriol, bwriadol a rhagweithiol. Roedd yr ymarferwyr wedi ystyried cynnydd a chryfderau’r plentyn, yn ogystal ag archwilio meysydd o bryder. Fe wnaethant addasu’r gwaith a gynlluniwyd a’r ymyriadau i ymateb i newidiadau, ac mewn llawer o GCIau roedd hyn wedi annog a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â phlant a theuluoedd. Roedd plant a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn ystyrlon, ac roedd eu safbwyntiau ar gynnydd a newidiadau mewn amgylchiadau yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried yn rhan annatod o adolygu gweithgaredd. Roedd fforymau/cyfarfodydd aml-asiantaeth strwythuredig ac aml, a oedd yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn aml. Roedd partneriaid yn cyfrannu at reoli risg a diogelwch ac yn ei gefnogi. Lle'r oedd angen ymatebion pan oedd amgylchiadau'n newid, roeddent yn amserol ac yn effeithiol.

Mewn cyferbyniad, pan na chynhaliwyd digon o adolygu gweithgarwch, nid oedd ymarferwyr yn nodi, yn dadansoddi nac yn ymateb yn gyson i newidiadau critigol mewn amgylchiadau i gadw plant ac eraill yn ddiogel. Gwelsom enghreifftiau o gyfathrebu gwael rhwng gwasanaethau a rhwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys anawsterau o ran cael gafael ar wybodaeth hanfodol a’i rhannu, ac ymatebion araf i newid, a arweiniodd at achosion lle nad oedd plant a phobl eraill yn ddiogel. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd cynlluniau a chyflwyniad i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau.

## Cynllunio wrth gefn

Mae cynllunio wrth gefn yn faes yr ydym wedi tynnu sylw ato mewn nifer o adroddiadau blynyddol blaenorol. Bu rhai gwelliannau yn ansawdd y cynllunio wrth gefn eleni o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r maes hwn o hyd, yn enwedig mewn achosion lle asesir bod y risgiau i'r plentyn ac oddi wrtho yn ganolig neu'n isel. Wrth gynllunio wrth gefn ar gyfer risgiau i’r plentyn ac oddi wrth y plentyn, canfuom enghreifftiau lle nad yw’r GCIau yn creu cynlluniau wrth gefn pwrpasol yn gyson sy’n nodi ymatebion priodol pe bai risgiau neu amgylchiadau’n newid.

**St Helens, cynllunio wrth gefn sy'n gyson gryf**

‘Canfu arolygwyr gryfder yn ansawdd y cynlluniau wrth gefn ar gyfer diogelwch a lles ym mhob achos a arolygwyd. Mae hyn yn bwysig, gan y dylai fod cynllun gweithredu clir pe bai'r risg i blentyn naill ai'n cynyddu neu'n lleihau. Mae cynlluniau wrth gefn yn nodi'n glir y camau gweithredu neu'r ymatebion digonol i'w cymryd os bydd amgylchiadau'n newid, neu pan fydd hynny'n newid. Ym mhob achos perthnasol, canfu’r arolygwyr fod cynllunio wrth gefn mewn perthynas â diogelu’r cyhoedd yn glir ac yn fanwl ynghylch camau gweithredu penodol i gadw eraill yn ddiogel.’

## Dioddefwyr

Mae gwaith gyda ac ar gyfer dioddefwyr yn parhau i fod yn faes i'w wella mewn gwaith llys statudol. Canfuom, wrth asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu, nad oedd ymarferwyr yn dal i roi sylw cyson i anghenion a dymuniadau dioddefwyr.

- Mewn 57 allan o 189 o achosion lle nodwyd dioddefwyr, nid oedd dymuniadau ac anghenion y dioddefwyr wedi cael eu hystyried yn ddigonol.

- Mewn 85 allan o 225 o achosion lle'r oedd dioddefwyr adnabyddadwy/posibl, nid oedd cynllunio i fynd i'r afael â phryderon penodol yn ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn ddigonol.

Mae ein cynlluniau ar gyfer ein fframwaith arolygu ieuenctid newydd yn cynnwys mwy o ffocws ar waith i gefnogi a hyrwyddo diogelwch dioddefwyr. Gobeithiwn y bydd hyn yn ysgogi gwelliant yn ansawdd gwasanaethau i ddioddefwyr.

## Argymhellion yn ymwneud â gwaith llys

Ym mron pob un o’r argymhellion a wnaethom mewn perthynas â gwaith llys, roeddem yn canolbwyntio ar wella ansawdd y gwaith a wneir i gadw plant ac eraill yn ddiogel ac i hybu diogelwch. Gwnaethom argymell rhagor o hyfforddiant, canllawiau a throsolwg effeithiol gan reolwyr i sicrhau ansawdd gwaith cyson ar draws asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Roedd yr argymhellion hefyd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn nodi’n glir pa gamau oedd angen eu cymryd mewn sefyllfaoedd lle roedd amgylchiadau’r plentyn wedi newid, a phwy oedd angen eu cymryd. Argymhellwyd gennym hefyd y dylai partneriaethau gymryd ymateb cydgysylltiedig i gadw plant ac eraill yn ddiogel. Fe wnaethom nodi nifer o feysydd lle’r oedd yn bwysig i ymarferwyr a rheolwyr wella eu sgiliau o ran nodi a dadansoddi risgiau i blant ac oddi wrthynt, a rôl prosesau sicrhau ansawdd wrth wella arfer.


# Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Gwyddom fod nifer y plant sy’n cael datrysiadau y tu allan i’r llys yn parhau i godi, ac nid yw llawer o’r data a’r dadansoddiadau mewn perthynas â’r plant hyn yn cael eu casglu, eu coladu na’u dadansoddi’n ddigonol o hyd.

Demograffeg allweddol o’r achosion plant a arolygwyd o dan ein datrysiadau y tu allan i’r llys, parth tri:

- Mae 25 y cant o blant rhwng 17 a 18 oed.
- Mae 73 y cant o blant rhwng 12 ac 16 oed.
- Mae 76 y cant yn fechgyn.
- Mae 24 y cant yn ddu a lleiafrifoedd ethnig.
- Nid yw crefydd 47 y cant o blant wedi'i chofnodi.
- Nid yw hunaniaeth rywiol 73 y cant o blant wedi’i chofnodi.
- Asesodd ymarferwyr fod gan 42 y cant o'r plant yr oeddent yn eu goruchwylio anabledd. Roedd gan un y cant anabledd nad oedd yn cael ei gydnabod gan y rheolwr achos.
- Roedd troseddau treisgar yn cyfrif am 57 y cant o'r achosion a arolygwyd, ac yna troseddau cyffuriau (10 y cant), difrod troseddol (ac eithrio llosgi bwriadol) (wyth y cant) a lladrad (chwech y cant). Roedd troseddau rhywiol (cyffwrdd a digyffwrdd) yn cyfrif am dri y cant o'r achosion a arolygwyd.
- Roedd 13 y cant wedi bod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn ystod yr amser y cawsant eu harolygu, ac roedd 11 y cant yn byw o fewn ardal y GCI a arolygwyd, gyda dau y cant yn byw y tu allan i ardal y GCI.

**Ffigur 11: Dosbarthiad graddau ar draws datrysiadau y tu allan i’r llys parth tri ar gyfer asesu, cynllunio, gweithredu a darparu a pholisi a darpariaeth**




Mae’n bleser nodi na chafodd yr un GCI sgôr ‘Anfoddhaol’ ar gyfer polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i’r llys yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rydym wedi cael graddfeydd ‘Anfoddhaol’ ar gyfer asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu, ac mae’n amlwg bod angen gwella arferion yn gyson mewn rhai meysydd.

O'r 20 GCI a arolygwyd gennym, graddiwyd pob un ar gyfer parth tri.[19] Graddiwyd chwech yn 'Rhagorol' am asesiad (St Helens, Coventry, Gorllewin Berkshire, Knowsley, Hackney a Gogledd Swydd Lincoln). Cafodd pum gwasanaeth o'r 20 (25 y cant) sgôr 'Da' ar gyfer asesiad, i lawr o 36 y cant y llynedd. Graddiwyd pum gwasanaeth (25 y cant) 'Angen gwelliant', a graddiwyd pedwar (20 y cant) yn 'Anfoddhaol', o'i gymharu â naw y cant y llynedd (tri allan o 33 a arolygwyd).


Am gynllunio, cafodd chwe gwasanaeth sgôr 'Rhagorol' (Coventry, Gorllewin Berkshire, St Helens, Southwark, Northumberland, a Swydd Nottingham) ac wyth sgôr 'Da'. Graddiwyd dau yn 'Angen gwelliant' a graddiwyd pedwar yn 'Anfoddhaol'.

Mae'n braf iawn gweld, wrth weithredu a darparu, bod naw gwasanaeth wedi cael sgôr 'Rhagorol', y sgôr uchaf a ddyfarnwyd ar gyfer gweithredu a darparu mewn datrysiadau y tu allan i'r llys (Coventry, Gorllewin Berkshire, St Helens, Southwark, Gateshead, Northumberland , Hackney, Bwrdeistref Frenhinol Greenwich, a Swydd Gaergrawnt).

Yng nghyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, graddiwyd tri maes yn 'Rhagorol' ar gyfer polisi a darpariaeth, roedd 11 yn 'Dda', chwech yn 'Angen gwelliant' ac nid oedd yr un yn 'Anfoddhaol'.

Mae hyn yn cynrychioli tuedd sy'n gwella o'i gymharu â'r llynedd. Yn wir, mae dosbarthiad canrannol y graddfeydd yn dangos bod cyfran uwch o wasanaethau wedi'u graddio'n 'Rhagorol' neu'n 'Dda' (70 y cant yng nghyfnod yr adroddiad hwn, o gymharu â 58 y cant yn 2021/2022).

**Ffigur 12: Datrysiadau y tu allan i'r llys – canran yr achosion a gafodd sgôr ddigonol yn erbyn cwestiynau allweddol i'w hasesu, 2018 i Hydref 2023**




Mae gwaith mewn perthynas ag asesu, dadansoddi a deall ymataliad plant wedi bod yn gyson gryf yn y cyfnod hwn, gyda thros 80 y cant o achosion wedi'u graddio'n gyson ddigonol (83 y cant). Mae hyn bellach yn debyg i'r gyfran a gafodd ei sgorio'n ddigonol ar gyfer gweithgaredd asesu mewn gwaith llys (85 y cant). Rydym wedi gweld gostyngiadau

[19] Cael chwech neu fwy o achosion o fewn y cyfnod samplu

bach yn nigonolrwydd gweithgarwch asesu ar gyfer deall a dadansoddi'r risg o niwed i eraill (65 y cant) a diogelwch a lles plant (68 y cant) mewn datrysiadau y tu allan i'r llys eleni. Fodd bynnag, mae hyn yn debyg iawn i waith a wneir ar orchmynion statudol (66 y cant a 70 y cant yn y drefn honno).


Roedd gan y meysydd a gafodd sgôr uchel ar gyfer asesu ymataliad sawl nodwedd yn gyffredin. Roedd ymarferwyr yn fedrus wrth adnabod anghenion amrywiol plant, ac yn canolbwyntio ar archwilio ac ystyried hunaniaeth y plentyn. Roedd y gweithgaredd asesu yn gytbwys ac yn seiliedig ar gryfderau, ac roedd plant, rhieni a gofalwyr yn ymwneud yn fawr â gweithgaredd asesu ac yn cyfrannu ato.

Roedd yr ymarferwyr yn archwilio amgylchiadau teuluol a chymdeithasol y plentyn yn drylwyr, ac yn deall effaith profiadau trawmatig cynnar ar ymddygiadau plant. Cyfoethogwyd asesu gan fformwleiddiadau achos ac ymgynghoriadau gan ddarparwyr gwasanaethau arbenigol, er enghraifft gwasanaethau iechyd a lleferydd ac iaith.

Asesodd yr ymarferwyr yn briodol a oedd unrhyw rwystrau strwythurol i gynnydd y plentyn, a chawsant fynediad addas at ystod eang o wybodaeth gan asiantaethau eraill i gefnogi eu hasesiadau o ddiogelwch a lles y plentyn. Roeddent yn fedrus wrth adnabod materion yn ymwneud â gwrthod, gwahanu, camfanteisio ac effaith lles emosiynol gwael ar iechyd meddwl plant.

Mewn ardaloedd fel Coventry, gwelsom dystiolaeth glir o sut yr oedd y panel gwneud penderfyniadau ar y cyd yn cael ei arwain gan yr asesiad o risg o achosi niwed i eraill pan oedd yn pennu'r ffordd orau o ddatrys ar gyfer y plentyn.

**Ffigur13: Datrysiadau y tu allan i'r llys – canran yr achosion a gafodd sgôr ddigonol yn erbyn cwestiynau allweddol ar gyfer cynllunio, 2018 i Hydref 2023**




Roedd cynllunio gweithgaredd mewn perthynas ag anghenion ymataliad plant yn arbennig o gryf yn ystod y cyfnod hwn, gan godi i'r lefel uchaf erioed o 90 y cant, sy'n wych i'w weld. Nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu gan gynllunio gweithgaredd mewn perthynas â diogelwch a lles plant, neu gynllunio i gadw eraill yn ddiogel, er ein bod yn nodi bod y ddau wedi cyflawni dros 70 y cant o ran digonolrwydd.

**Cyflawnodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gorllewin Berkshire 100 y cant ar draws ymataliad, diogelwch a lles a chadw pobl eraill yn ddiogel wrth gynllunio gwaith datrysiad y tu allan i'r llys**

Roedd cynllunio i fynd i'r afael ag ymatal yn cymryd agwedd teulu cyfan. Roedd wedi'i deilwra'n briodol ar gyfer y plant, ac yn cyd-gynhyrchu'r cynllun gyda nhw. Roedd y cynllunio yn cyd-fynd â'r datrysiad a osodwyd, ac roedd y targedau y cytunwyd arnynt gyda'r plentyn yn realistig ac yn gyraeddadwy o fewn yr amserlenni.


Roedd cryfderau gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau bod cynlluniau wedi'u cysylltu'n agos â'r rhai a gynhyrchwyd gan ddarparwyr gwasanaethau eraill. Rhoddwyd sylw cymesur i gryfderau, ffactorau amddiffynnol, a meysydd o bryder. Roedd yr ymarferwyr yn ystyried cymhelliant ac aeddfedrwydd y plentyn yn dda. Roedd yr olaf yn hanfodol i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol mwyaf posibl, a oedd yn galluogi plant i ffynnu.

Roedd cynllunio wedi cynnwys ystyried mynediad i wasanaethau prif ffrwd. Ym mron pob achos, roedd ymarferwyr wedi ystyried anghenion amrywiaeth yn dda. Er enghraifft, fe ofynnon nhw i'r gweithiwr addysg, nyrs, a gweithiwr lleferydd ac iaith am gyngor ar ddylunio cynllun oedd yn diwallu anghenion y plentyn yn llawn.

Roedd cynllunio i fynd i'r afael â diogelwch a lles plant yn cael ei wneud yn dda. Roedd ymarferwyr yn cysylltu'n bwrpasol ag asiantaethau eraill i wneud yn siŵr bod eu cynlluniau'n cyd-fynd yn dda. Roedd pob ymarferydd gwasanaeth yn deall eu rôl, gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd strategaeth pan oedd angen. Arsylwodd yr arolygwyr waith cynllunio effeithiol gyda CAMHS, gwasanaeth camddefnyddio sylweddau The Edge a'r heddlu.

Roedd cynllunio i gadw eraill yn ddiogel yn cael ei wneud yn dda. Roedd ymarferwyr yn ystyried yn briodol anghenion dioddefwyr gwirioneddol a phosibl. Fe wnaethant gynnwys a defnyddio gwybodaeth gan asiantaethau partner yn effeithiol i lywio cynlluniau i gadw eraill yn ddiogel rhag niwed. Fe wnaethant nodi rheolaethau a chytuno arnynt gyda phlant a'u rhieni a'u gofalwyr. Fe wnaethant hefyd nodi sefydliadau perthnasol wrth gynllunio i gadw eraill yn ddiogel. Roedd rheoli risg yn gyfrifoldeb a rennir ymhlith asiantaethau diogelu'r cyhoedd sy'n gweithio yn y bartneriaeth. Roedd y cynllunio yn cynnwys trefniadau rhannu gwybodaeth ac ymrwymiad ar y cyd i gyfarfodydd yn y dyfodol i adolygu risgiau.

**Ffigur 14: Datrysiadau y tu allan i'r llys – canran yr achosion y barnwyd eu bod yn ddigonol yn erbyn cwestiynau allweddol ar gyfer gweithredu a darparu, 2018 i Hydref 2023**




Er ein bod wedi gweld gostyngiad bach yn y sgôr digonolrwydd ar gyfer gweithredu a darparu o ran sicrhau diogelwch a lles plant (74 y cant, i lawr o 76 y cant y llynedd), mae'r sgoriau hyn yn gyson gryf.

**Cyflawnodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gateshead sgôr 'Rhagorol' ar gyfer gweithredu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys ar draws ymataliad, diogelwch a lles a risg o niwed i eraill**

Roedd yr ymarferwyr yn fedrus wrth ddatblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda phlant a theuluoedd. Gwelsom ofal ac ymrwymiad gwirioneddol, gydag ymarferwyr yn amlwg yn eiriol dros y plant a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Roeddent yn hyblyg ynghylch pryd a sut yr oeddent yn gweld plant, a oedd yn annog plant i ymgysylltu â'r gwaith.

Roedd cynlluniau'n cael eu gweithredu'n dda, gydag ymyriadau wedi'u dilyniannu a'u cyflwyno ar gyflymder priodol i'r plentyn.

Yn ogystal â mynd i'r afael â meysydd o bryder, adeiladodd ymarferwyr ar gryfderau presennol y plant a hyrwyddo integreiddio â darpariaeth gymunedol a phrif ffrwd. Roedd cyfathrebu cryf rhwng gwahanol weithwyr yn y rhwydwaith proffesiynol, a chyfrifoldeb ar y cyd am gadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel. Roedd ymatebion y bartneriaeth i risgiau yn cael eu cydlynu a'u teilwra i'r plentyn. Yn yr achosion a adolygwyd gennym, roedd ymarferwyr yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau eraill, gan gydamseru apwyntiadau ac ymyriadau fel nad oedd y plant a'r rhieni neu ofalwyr yn cael eu gorlethu.

Roedd yr ymarferwyr yn deall effaith trawma ac wedi cynnwys hyn yn eu dull o weithio gyda'r plant. Roeddent yn hyderus yn eu gwybodaeth o sut a phryd i ddechrau gwaith ymyrryd, ac a oeddent yn y sefyllfa orau i wneud hyn. Fe wnaethant gwblhau ymyriadau pwrpasol priodol i fynd i'r afael â phryderon, gan gynnwys datrys gwrthdaro, gwaith sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr, ffyrdd o fyw, a pherthnasoedd iach. Roedd hyn yn helpu plant i ddeall eu hymddygiad eu hunain a'i effaith ar eraill.

## Gweithredu a darparu datrysiadau cymunedol

Cynhyrchwyd ein [Bwletin Ymchwil a Dadansoddi Mawrth 2023] gan Dr Daniel Marshall, Andrea Nisbet, a Dr Paul Gray o Ganolfan Astudiaethau Ieuenctid Manceinion ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion. Mae'n cyflwyno canfyddiadau ymchwil a archwiliodd sut mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gweithredu ac yn darparu datrysiadau cymunedol (CRau) yng Nghymru a Lloegr, gan ddogfennu arferion gwaith yn ogystal â galluogwyr a rhwystrau allweddol i arfer effeithiol. Roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol ar y cyfan

ynghylch CRau a’u nod o gadw pobl ifanc i ffwrdd o’r system gyfiawnder fwy ffurfiol gymaint â phosibl. Serch hynny, amlygodd hefyd rwystrau allweddol i weithredu a chyflawni CRau. Mae’r broses CR yn gymhleth, gyda thimau cyfiawnder ieuenctid, ochr yn ochr ag asiantaethau eraill, yn gweithio mewn trefniadau braidd yn amwys ac mewn amgylchiadau heriol.

> *"Rwy'n meddwl bod datrysiad cymunedol yn gweithio orau pan allwn ni ymgorffori elfen o gyfiawnder adferol ynddo. Lle mae'r dioddefwr yn hapus i fod yn rhan o'r broses honno, a'r person ifanc yn, … dwi'n meddwl eich bod chi'n cael datrysiad cymunedol llawnach. Lle mae’r dioddefwr a’r person ifanc ill dau yn teimlo eu bod wedi cael rhywbeth allan ohono, a bod iawn wedi’i wneud am y drwg … ac mae rhywfaint o gau pen y mwdwl.” (heddwas cyfiawnder ieuenctid)*

> *"Mae rhai yn meddwl na allwn ddilyn yr egwyddor plentyn yn gyntaf a siarad am risg yn yr un frawddeg, ond fy marn i yw y gallwn ac y dylem. Oherwydd mewn gwirionedd y ffordd orau i ymateb i risg, risg i blant, risg mewn cymunedau yw trwy roi'r plentyn yn y canol, drwy glywed eu llais, drwy ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar gryfderau i’w cefnogi a chynyddu eu cyfranogiad. Oherwydd os gallwn wedyn eu cysylltu â chymunedau, yn ôl i gymdeithas, yn ôl i addysg, yn ôl i’r strwythurau a’r systemau nad ydyn nhw wedi gallu bod yn rhan ohonynt, dyna pryd y mae ymataliad yn llawer mwy tebygol. Felly, i mi, dydyn nhw ddim yn annibynnol ar ei gilydd.” (uwch ymarferydd cyfiawnder ieuenctid)*

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad, roedd y bwletin yn nodi'r argymhellion a ganlyn:

**Perthynas â Chanlyniad 22**

Canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer yr heddlu ac ymarferwyr eraill ar y defnydd o Ganlyniad 22 fel rhan o bolisi datrysiad y tu allan i’r llys lleol a chanllawiau i lywio penderfyniadau.

**Canllawiau**

Mae angen cysondeb cenedlaethol a lleol wrth weithredu a chyflawni CRau.

Mae canllawiau CR a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn egluro'r broses CR.

**Cysylltiad GCI**

Dylid hysbysu GCIau am bob CR a bod yn rhan o’r broses, gyda’r heddlu ac asiantaethau perthnasol, cyn gynted â phosibl.

**Defnydd o CRau**

Un o alluogwyr allweddol darpariaeth leol oedd y defnydd cyson o offer sgrinio ac asesu. Dylid gwreiddio'r arfer hwn ym mhob CR.

**Monitro a gwerthuso**

Ni chyhoeddir unrhyw ddata cenedlaethol ar y defnydd o CRs gyda phobl ifanc - dylai hyn gael sylw. Dylid datblygu monitro Crau a phrosesau gwerthuso hefyd.

## Polisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys

Mae ein safonau’n disgwyl, ar gyfer pob polisi a darpariaeth gwarediad tu allan i’r llys, y bydd gwasanaeth datrysiadau y tu allan i’r llys o ansawdd uchel, yn seiliedig ar dystiolaeth, ar waith

sy’n hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. Disgwyliwn weld protocolau clir ar y cyd â’r heddlu ar waith, sy’n nodi polisïau ac arferion y cytunwyd arnynt yn lleol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd sy’n amddiffynadwy. Disgwyliwn i GCIau a'r heddlu sicrhau bod meini prawf cymhwysedd wedi'u diffinio'n glir ac yn briodol eang. Mae hyn yn caniatáu disgresiwn, tra'n osgoi dod â mwy o blant i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid yn anfwriadol. Rydym hefyd yn disgwyl gweld polisi ac arfer sy’n ystyried anghenion amrywiol plant, yn cadw plant yn ddiogel, ac yn sicrhau diogelwch pobl eraill, ac arfer sy’n cael ei adolygu a’i werthuso’n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyson â’r sylfaen dystiolaeth.

Roedd nodweddion ardaloedd a gafodd eu graddio’n ‘Rhagorol’ ar gyfer polisi a darpariaeth yn cynnwys:

- gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer gwaith datrys y tu allan i'r llys a oedd yn arfarnu ac yn defnyddio sylfaen ymchwil a thystiolaeth eang
- polisi clir ar ddatrys y tu allan i'r llys sy'n nodi trefniadau rhanbarthol a lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau, darparu a chyflawni
- atgyfeiriadau amserol i banel aml-asiantaeth sy'n gwneud penderfyniadau ar ddatrys y tu allan i'r llys
- paneli aml-asiantaeth a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau gofal cymdeithasol plant a (lle roedd ar gael) gwasanaethau cymorth cynnar; roedd hyn yn sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer mynd i’r afael â diogelwch a lles y plant yn cael eu hystyried
- ystyried a chymhwyso ystod lawn o ddatrysiadau, gan alluogi ymateb graddedig, fel y gellid dargyfeirio plant rhag cael eu herlyn lle bo'n briodol
- penderfyniadau ar warediadau y tu allan i'r llys yn cael eu llywio a'u cefnogi gan asesiadau o ansawdd da a gyfrannodd at gynllunio clir a darparu gwaith dilynol
- ystyriaeth lawn o amrywiaeth plentyn a dull dadansoddol cryf o ymchwilio i anghymesuredd gwirioneddol neu bosibl
- trefniadau partneriaeth clir ar gyfer uwchgyfeirio a datrys gwahaniaethau pan fydd y rhain yn digwydd
- yr ymyriadau a'r gwasanaethau sydd ar gael i blant ar orchmynion llys ar gael i'r rhai a oedd wedi cael datrysiad y tu allan i'r llys, a chryfderau'r plentyn yn cael eu datblygu i gefnogi ymataliad, tra'n cynnal ffocws ar ddiogelwch a lles a risg o niwed i eraill
- achosion gwarediad tu allan i'r llys a aseswyd naill ai fel risg uchel o niwed neu gyda phryderon diogelwch a lles yn derbyn yr un broses cyfarfod rheoli risg ag achosion llys
- plant yn cael cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol a mynediad at wasanaethau partneriaeth ar ôl iddynt gwblhau'r gwaith datrys y tu allan i'r llys
- trefniadau ar waith i gasglu a choladu barn plant sy’n cwblhau datrysiad y tu allan i’r llys, yn ogystal â barn eu rhieni a’u gofalwyr
- craffu mewnol ac allanol ar drefniadau paneli
- aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid eraill yn manteisio ar gyfleoedd i arsylwi'r panel penderfynu ar y cyd dros ddatrys y tu allan i’r llys i ddeall sut mae’n gweithio
- y defnydd o werthuso mewnol ac allanol i ddangos effaith polisi a darpariaeth datrys y tu allan i’r llys, trwy gynlluniau peilot ac archwiliadau thematig dilynol, a oedd wedi arwain at newidiadau a gwelliannau mewn arfer.

## Graddio GCI Coventry yn 'Rhagorol' ar draws pob un o'r safonau parth tri, gan gynnwys polisi a darpariaeth

Yn Coventry, canfuom ymarferwyr a oedd yn deall profiadau bywyd y plant. Roeddent wedi ystyried rhwystrau'r plentyn i gael mynediad i addysg, wedi cynnwys gofal cymdeithasol plant, ac wedi ystyried ffactorau megis cyfoedion, dynameg teulu a threftadaeth y plentyn. Roedd gwaith asesu yn cysylltu'n dda ag asiantaethau eraill a oedd yn ymwneud â diogelwch a lles y plentyn, ac yn tynnu'n ddigonol ar wybodaeth gan yr asiantaethau hyn ym mron pob achos a arolygwyd.

Roedd tystiolaeth glir bod y panel gwneud penderfyniadau ar y cyd yn cael ei arwain gan yr asesiad o risg y plentyn o achosi niwed i eraill wrth benderfynu ar y datrysiad gorau ar gyfer amgylchiadau'r plentyn. Roedd yn defnyddio dull 5P yn gyson ar gyfer asesu, sef dull o lunio achosion wedi'i seilio'n dda ac yn seiliedig ar ymchwil.

Roedd yn amlwg bod plant yn cymryd rhan ym mhob cam o'r broses gynllunio. Lle bo angen, roedd y cynllun ar gyfer y plentyn yn cynnwys ymgysylltu estynedig â gwasanaethau y tu hwnt i'r cyfnod datrys, ac roedd ymarferwyr wedi ystyried sut i fod yn hyblyg ynghylch yr hyn oedd yn iawn i bob unigolyn. Roedd yn amlwg bod yr ystod gyfan o ymyriadau a oedd ar gael i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gael i blant oedd yn dod i mewn i'r gwasanaeth drwy lwybr datrysiad y tu allan i'r llys.

Roedd llawer o asiantaethau eraill yn ymwneud â'r ymyriadau a gynlluniwyd, a oedd yn cynnwys gwaith iechyd emosiynol, ymyrraeth camddefnyddio sylweddau, ymyrraeth addysg a hyfforddiant, a mynediad at fentora a oedd yn addas ar gyfer treftadaeth y plentyn.

Roedd ymagwedd aml-asiantaeth gadarnhaol at gadw plant yn ddiogel, gyda chysylltiadau cryf ac effeithiol â gofal cymdeithasol plant. Roedd camau gweithredu fel ymateb i ddigwyddiadau lle roedd plentyn wedi mynd ar goll wedi'u hymgorffori yng nghynllun y GCI. Pan nodwyd bod plant mewn perygl o gael eu hecsbloetio, roedd y trefniadau gweithio ar y cyd â Horizon (y tîm sy'n canolbwyntio ar gamfanteisio'n droseddol gyda phlant) yn golygu bod cyfrifoldeb clir – pwy sy'n gwneud beth – ar waith am gynllun diogelwch y plentyn.

Roedd y dull aml-asiantaeth yn ymestyn i gadw pobl eraill yn ddiogel. Ym mhob un o'r achosion plant, canfuom fod y cynlluniau'n hybu diogelwch pobl eraill, lle'r oedd angen hyn. Lle'r oedd pryderon penodol am ddioddefwyr gwirioneddol a phosibl, rhoddwyd sylw da i'r rhain yn y cynlluniau. Yn y rhan fwyaf o achosion, canfuom fod trefniadau wrth gefn – ar gyfer pan oedd amgylchiadau'n newid i gynyddu'r risg yr oedd y plentyn yn ei chyflwyno i eraill – o ansawdd manwl.

Roedd gwasanaethau i blant yn cael eu darparu'n dda ym mhob achos. Gwelsom waith cyson o ansawdd uchel, yn cynnwys amrywiaeth o asiantaethau a darparwyr arbenigol. Mewn llawer o achosion, roedd llawer iawn yn cael ei wneud o fewn amserlen fer i ystyried anghenion niwroddargyfeiriol neu ddysgu plant, ac yn ymatebol i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn. Ym mron pob achos, roeddem o'r farn bod darparu gwasanaeth yn cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn.

Roedd y strategaeth yn gwerthuso'r sylfaen ymchwil a thystiolaeth ac yn nodi dull gweithredu plentyn yn gyntaf, gyda'r nod o leihau'r stigma o ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Ar ôl nodi bod plant o gefndir ethnig lleiafrifol yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y plant sy'n cael datrysiadau llys, datblygodd y GCI brosiect dargyfeirio, i leihau'r defnydd anghymesur o benderfyniadau llys ac i wneud yn siŵr bod ymyriadau ar gael i'r plant hyn i gefnogi eu hymataliad. At hynny, wrth fabwysiadu dull

‘teulu cyfan’, roedd y GCI yn cynnig cymorth rhianta gwirfoddol i bob plentyn a theulu sy’n gweithio gyda’r gwasanaeth.

Gwiriodd swyddog cynorthwyol y llys bob achos a oedd yn ymddangos gerbron y llys i wneud yn siŵr bod pob llwybr y tu allan i’r llys wedi’i archwilio cyn i blentyn fynd ymlaen i’r llys.

Roedd y GCI, fel rhan o adolygiad o'r strategaeth, wedi ymgynghori â rhieni a theuluoedd, plant, a dioddefwyr troseddau. Roedd panel penderfynu ar y cyd aml-asiantaeth, a oedd yn adlewyrchu holl elfennau'r bartneriaeth. Roedd y cynnig o gymorth i blant a’u rhieni neu ofalwyr – gan gynnwys ar gyfer datrysiadau cymunedol – yn eang. Ei nod oedd adeiladu ar gryfderau i gefnogi ymataliad, tra'n cynnal ffocws ar les a risg o niwed i eraill. Bu panel datrys y tu allan i’r llys Coventry yn craffu’n allanol ar y broses hefyd.

Un o'n hargymhellion amlaf mewn perthynas â datrysiadau y tu allan i'r llys yw'r amrywiad yn y defnydd a'r cymhwysiad o Ganlyniad 22. Cyhoeddwyd y matrics difrifoldeb plant wedi’i ddiweddaru ym mis Medi 2023 a’i hyrwyddo ledled Cymru a Lloegr yn rhifyn atal a dargyfeirio arbennig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o’u bwletin. Rydym yn obeithiol yr eir i’r afael â rhywfaint o’r amrywiad hwn yn awr, gan gymhwyso opsiynau datrys y tu allan i’r llys i blant yn llawer mwy cyson.

## Dioddefwyr

Roedd y gwaith asesu a wnaed mewn perthynas â dioddefwyr o ansawdd ychydig yn well mewn datrysiadau y tu allan i’r llys nag mewn gwaith llys statudol. Serch hynny, canfuom, yn gyffredinol, fod gwaith gyda dioddefwyr ac ar eu cyfer yn parhau i fod yn faes i’w wella mewn datrysiadau y tu allan i’r llys. Canfuom nad oedd ymarferwyr yn dal i roi sylw cyson i anghenion a dymuniadau dioddefwyr wrth asesu, cynllunio a gweithredu a darparu.

- Mewn 52 allan o 259 o achosion lle nodwyd dioddefwyr, nid oedd gweithgarwch asesu wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i ddymuniadau ac anghenion dioddefwyr.
- Mewn 72 allan o 261 o achosion lle'r oedd dioddefwyr adnabyddadwy/posibl, nid oedd cynllunio yn mynd i'r afael yn ddigonol ag unrhyw bryderon a risgiau penodol yn ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl.
- Mewn 68 allan o 262 o achosion lle'r oedd dioddefwyr adnabyddadwy/posibl, ni wnaethpwyd digon o waith i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl.

## Diwallu anghenion amrywiol plant

Yn ein safonau rydym yn gofyn a yw asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau yn asesu ac yn cynllunio ar gyfer materion amrywiaeth plant yn ddigonol ac yn eu hystyried.

| Gorchmynion statudol | % 'Ydi' | % 'Nac ydi' |
|---|---|---|
| A yw asesu yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion amrywiaeth? | 75% | 25% |
| A yw cynllunio yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion amrywiaeth? | 73% | 27% |
| A yw darpariaeth gwasanaeth yn ystyried anghenion amrywiaeth y plentyn? | 77% | 23% |

| Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys | % 'Ydi' | % 'Nac ydi' |
|---|---|---|
| A yw asesu yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion amrywiaeth? | 76% | 24% |
| A yw cynllunio yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion amrywiaeth? | 79% | 20%[20] |
| A yw darpariaeth gwasanaeth yn ystyried anghenion amrywiaeth y plentyn? | 82% | 18% |

Er i ni weld rhai enghreifftiau rhagorol o waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod anghenion amrywiol plant yn cael eu diwallu, gan gynnwys cynllunio ar gyfer gwaith a'i deilwra, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu nad yw anghenion amrywiol tua un o bob pedwar o blant sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu hasesu, eu cynllunio ar eu cyfer, na'u hystyried yn llawn pan fydd gwaith yn cael ei gyflawni. Mae angen gwella hyn.

**Astudiaeth achos: cydnabod anghenion amrywiol plant**

Roedd yr ymarferydd wedi archwilio anghenion amrywiol y plentyn a'i brofiadau byw yn fanwl, yn ogystal â'i bersbectif ar ei ethnigrwydd, hil, treftadaeth, diwylliant, crefydd a'i enw. Archwiliodd yr ymarferydd hefyd beth oedd yr holl elfennau hyn yn ei olygu iddo a pha effaith a gawsant ar ei fywyd hyd yma.

Darparodd yr ymarferydd amser a lle hefyd i'r plentyn siarad am ei brofiadau o wahaniaethu ac effaith hyn. Bu trafodaethau hefyd am effaith absenoldeb ei dad o'i fywyd. Roedd y plentyn yn amlwg yn teimlo ei fod yn cael ei glywed, yn cael sylw llawn ac yn ddiogel yn y sgyrsiau hyn gyda'r ymarferydd.

At ei gilydd, mae canfyddiadau arolygu o'r 12 mis diwethaf yn dangos ymrwymiad calonogol i amrywiaeth gan uwch arweinwyr, ynghyd â rhai enghreifftiau rhagorol o gyflwyno gweithredol lle mae ymarferwyr wedi personoli eu hymyriadau o ganlyniad i ddeall profiadau byw plant. Fodd bynnag, yn awr mae angen dealltwriaeth lawnach o'r ystod eang o

[20] Nid oedd un y cant yn berthnasol

nodweddion gwarchodedig, fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae angen datblygu dogfennau canllaw ategol i sicrhau bod arfer yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o'r GCIau yn cynnwys yr angen i fynd i'r afael ag amrywiaeth ac anghymesuredd yn eu Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid, ond nid yw pob cynllun yn ymdrin yn benodol â sut y caiff y gwaith hwn ei wneud. Er bod y rhan fwyaf o GCIau yn casglu data ar amrywiaeth, mae'n aml yn gyfyng ac nid oes bob amser y sylw i fanylion sydd ei angen i ddadansoddi'r hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthynt. Gwelsom dystiolaeth bod rhai GCIau yn defnyddio data amrywiaeth yn dda i gomisiynu gwasanaethau, er enghraifft y prosiect Ether (Llundain) ac Iprovefit (gwasanaeth mentora yng Ngorllewin Berkshire).

Gwelsom hefyd dystiolaeth bod GCIau yn defnyddio fforymau plant neu grwpiau ffocws i gael adborth ar y gwasanaethau sydd ar gael. Arweiniodd hyn at newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth a datblygiad ymyriadau newydd, megis rhaglen troseddau cyllyll Swindon. Ymgorfforodd GCI Coventry ddatganiad cenhadaeth rhanbarthol merched yn ei safonau ar gyfer gwaith sy'n seiliedig ar ryw. Rydym hefyd wedi gweld ymarferwyr yn cael mynediad i, ac yn cwblhau, ystod o gyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys ymwybyddiaeth ddiwylliannol, awtistiaeth, niwroamrywiaeth, LHDTC+, Deddf Cydraddoldeb 2010 a merched. Siaradodd rhai GCIau hefyd am gyflwyno digwyddiadau 'gadewch i ni siarad am anghymesuredd' a nodi digwyddiadau o'r fath i sicrhau eu bod yn cadw'r ystod o faterion amrywiaeth ym mlaen meddyliau ymarferwyr.

Esboniodd nifer o GCIau sut maent yn defnyddio 'pasbort cyfathrebu' yn effeithiol i fodloni anghenion unigol plant ar draws darparwyr partneriaeth. Soniodd llawer am yr effaith gadarnhaol yr oedd cael adnoddau lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn tîm yn ei chael.

# Goruchwyliaeth rheolwyr

Mae nifer y dyfarniadau o ddigonolrwydd mewn perthynas ag ansawdd goruchwyliaeth gan reolwyr wedi cynyddu ychydig bach yng nghyfnod adroddiad blynyddol eleni, o 58 y cant o achosion a arolygwyd yn ymwneud â gorchmynion llys a 62 y cant o achosion yn ymwneud â datrysiadau tu allan i'r llys yn 2021/2022 i 62 y cant o orchmynion llys, 63 y cant o ddatrysiadau y tu allan i'r llys, a 62 y cant o achosion ailsefydlu yn 2022/2023.

Fodd bynnag, ar draws gorchmynion llys, datrysiadau y tu allan i'r llys, ac achosion ailsefydlu, roedd gwahaniaethau parhaus rhwng barn ymarferwyr ac arolygwyr ar oruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr. Dywedodd rheolwyr eu bod yn ystyried eu bod wedi cael goruchwyliaeth achos effeithiol gan reolwyr mewn 82 y cant o achosion llys, 79 y cant o achosion datrys y tu allan i'r llys, ac 80 y cant o achosion ailsefydlu. Roedd hyn yn sylweddol uwch nag asesiad yr arolygwyr o ddigonolrwydd.

Canfu arolygiadau a gynhaliwyd yng nghyfnod yr adroddiad blynyddol hwn themâu tebyg iawn i flynyddoedd blaenorol mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd goruchwyliaeth gan reolwyr, gan ddangos bod angen gwelliant pellach, ac o'r 20 arolygiad a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adolygu hwn, arweiniodd 12 at argymhellion penodol i wella ansawdd goruchwyliaeth gan reolwyr.

Mae rheolwyr achos yn aml yn adrodd eu bod yn cael trafodaethau a chymorth dyddiol; fodd bynnag, canfu ein harolygiadau nad yw'r rhain bob amser yn cael eu cynnwys yn y cofnodion achos, neu nad ydynt yn arwain at gymryd camau sydd wedyn yn cael eu monitro a'u hadolygu. Gwelsom enghreifftiau o ddrifft yn y gwaith a oedd yn cael ei gyflawni. Gwelsom hefyd enghreifftiau lle nad oedd gan yr ymarferydd wybodaeth neu sgiliau digonol mewn perthynas â deall pryderon diogelwch a lles plant neu risgiau i ddiogelwch eraill, ac nid oedd hyn wedi'i nodi gan y rheolwyr a oedd yn goruchwylio eu gwaith. Mae angen i arolygiaeth rheolwyr fod yn gefnogol ac yn effeithiol.

Mae pethau i'w hystyried mewn perthynas â throsolwg effeithiol gan reolwyr yn cynnwys:

- Cafodd goruchwyliaeth gan reolwyr sgôr gadarnhaol pan oedd tystiolaeth glir a rheolaidd o hyn yn y cofnodion achos, yn enwedig ar adegau o newid sylweddol ym mywyd y plentyn.
- Mae cysondeb yn allweddol. Roedd goruchwyliaeth reoli effeithiol yn digwydd pan oedd yr un rheolwr yn sicrhau ansawdd dogfennau, yn cynnal goruchwyliaeth fyfyriol, ac yn arwain y fforymau rheoli risg.
- Canfu'r arolygwyr enghreifftiau cadarnhaol o uwchgyfeirio a arweiniodd at blant yn cael mynediad at wasanaethau addysg, llety, iechyd a gofal cymdeithasol priodol.
- Roedd goruchwyliaeth annigonol gan reolwyr yn aml yn gysylltiedig ag anghysondeb. Roedd pryderon yn cynnwys newidiadau aml i strwythurau rheoli ac absenoldebau heb eu cyflenwi. Cafodd diffyg gallu rheoli (yn enwedig rheolwyr â rhychwant mawr o reolaeth) i gwmpasu ehangder cyfrifoldebau effaith sylweddol ar ansawdd goruchwyliaeth gan reolwyr.
- Nododd yr arolygwyr nad oedd gwybodaeth berthnasol bob amser yn cael ei chynnwys mewn asesiadau. O ganlyniad, roedd risgiau i ddiogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill weithiau'n cael eu tanamcangyfrif, ac ni chafodd hyn ei nodi wedyn fel rhan o'r broses o oruchwylio rheolwyr na phrosesau sicrhau ansawdd. Canfu'r arolygwyr fod pryderon yn codi pan fydd ansawdd asesiadau'n cael eu

sicrhau a'u cydlofnodi ar wahân i wybodaeth arall sydd ar gael ar y system rheoli achosion.

- Roedd oedi gyda chydlofnodi asesiadau cychwynnol yn aml yn arwain at gynllunio a gweithredu annigonol i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel. Nododd yr arolygwyr hefyd y dylid datblygu prosesau i sicrhau y caiff camau gweithredu eu dilyn.
- O fewn yr achosion ailsefydlu, canfu'r arolygwyr mai dim ond 19 o'r 37 o ymarferwyr a gyfwelwyd oedd wedi cael hyfforddiant penodol i asesu, cynllunio ac ymateb i anghenion ailsefydlu plant. Yn wyneb hyn, mae angen i reolwyr ganolbwyntio mwy ar gefnogi ymarferwyr i oruchwylio'r garfan carcharu ac ailsefydlu.

Mae angen i oruchwyliaeth reoli effeithiol fod yn gyfannol, gan symud y tu hwnt i gydlofnodi asesiadau ar wahân ac ystyried y wybodaeth ehangach sydd ar gael (gan y bartneriaeth ac o fewn systemau rheoli achosion). Canfu arolygwyr enghreifftiau cadarnhaol o oruchwyliaeth gan reolwyr pan oedd yn aml ac yn gyson, yn gadarn, gyda thrafodaethau wedi'u cofnodi'n glir, a chamau gweithredu perthnasol yn cael eu hadolygu gan reolwyr ac ymarferwyr.

Bydd yr offeryn datrys y tu allan i'r llys cenedlaethol yn cynnwys rhaglen hyfforddi; fodd bynnag, wrth i ymarferwyr addasu i ddefnyddio asesiad newydd, bydd goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr yn hanfodol i godi ansawdd.

## Ailsefydlu a remandio


Ailsefydlu yw'r cymorth y mae plentyn yn ei gael wrth iddo ddychwelyd i'r gymuned yn dilyn dedfryd o ddalfa. Pwrpas ailsefydlu yw helpu'r plentyn i lunio hunaniaeth gymdeithasol yn dilyn cyfnod dan glo, ac adeiladu ar ei gryfderau unigol, cyfalaf cymdeithasol ac adnoddau i'w helpu i aros yn ddiogel a byw bywyd yn rhydd o droseddu. Mae plant sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa ymhlith y rhai mwyaf cymhleth yn y system cyfiawnder ieuenctid. Maent yn aml yn agored iawn i niwed, ac mae gan lawer ohonynt anghenion ychwanegol. Yn ogystal â phryderon am eu diogelwch a'u lles, mae llawer o'r plant hyn hefyd yn peri risg i eraill.

Cyflwynwyd safon ailsefydlu i'n methodoleg arolygu yn 2021. Roedd hyn yn ein galluogi i raddio GCIau ar eu trefniadau ar gyfer darpariaeth ailsefydlu effeithiol ar raddfa gyson.

Wrth arolygu ailsefydlu, rydym yn ystyried polisi a darpariaeth a, lle mae achosion perthnasol, rydym hefyd yn archwilio'r modd y darperir gwasanaethau. Os na fu unrhyw achosion ailsefydlu yn y 12 mis cyn yr arolygiad, rydym yn adolygu'r polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu ond nid ydym yn rhoi sgôr safonol. Mae'r safon ailsefydlu yn cael ei graddio ar wahân ac nid yw'n cyfrif tuag at radd gyffredinol y GCI. Fodd bynnag, defnyddir dyfarniad cyfyngol, sy'n golygu na all unrhyw GCI sy'n cael sgôr 'Anfoddhaol' ar gyfer y safon ailsefydlu gyflawni sgôr 'Rhagorol' gyffredinol.

Disgwyliwn y bydd gwasanaeth ailsefydlu o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa. Disgwyliwn weld gwasanaethau llwybr ailsefydlu adeiladol, addas, amserol a phersonol i bob plentyn, gan gynnwys llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a gofal iechyd. Rydym am sicrhau bod anghenion amrywiol plant yn cael eu diwallu, a bod GCIau yn mabwysiadu ymagwedd at ailsefydlu sy'n mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr ac yn amddiffyn y rhai sydd mewn perygl, yn ogystal â sicrhau diogelwch y plentyn.

**Ffigur 15: Graddau polisi ailsefydlu a darpariaeth, 2022/2023**



Rydym wedi parhau i weld graddfeydd cadarnhaol ar gyfer y safon ailsefydlu yn 2022/2023, gyda 12 o'r 15 Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael sgôr 'Rhagoroll' neu 'Dda', a dim gwasanaethau'n cael sgôr 'Anfoddhaoll'. Mae'r gwasanaethau a gafodd sgôr 'Rhagorol' yn cynnwys Barnsley, Swydd Northampton, a Swydd Nottingham.

| **Yn ein harolygiadau o ailsefydlu, canfuom:** |
|---|
| Arolygwyd pedwar deg pump o achosion ar draws y 15 GCI. |
| Roedd naw deg pump y cant o'r plant yn ddynion a phob un dros 15 oed, gyda 79 y cant yn 17 oed neu'n hŷn. |
| Mae plant â nodweddion gwarchodedig neu o grwpiau agored i niwed yn parhau i gael eu gorgynrychioli: roedd 56 y cant yn blant o gymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig, cynnydd o 36 y cant yn 2021/2022. |
| Roedd pum deg tri y cant yn blant mewn gofal, a nodwyd bod gan 56 y cant anabledd. |
| Roedd cryfhau'r ymateb i amrywiaeth mewn polisïau ailsefydlu yn faes i'w wella mewn saith o'r 15 gwasanaeth a arolygwyd, gyda thri o'r rhain yn cyfeirio'n benodol at ferched. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch a yw anghenion ailsefydlu merched yn cael eu diwallu'n effeithiol. |
| Roedd gorchmynion cadw a hyfforddi yn cyfrif am 67 y cant o'r achosion a arolygwyd ac roedd 45 y cant o'r holl ddedfrydau o garchar yn 12 mis neu fwy o hyd. |
| Y math mwyaf cyffredin o drosedd oedd trais (57 y cant) ac yna lladrad (16 y cant). Roedd pum deg chwech y cant o blant wedi defnyddio cyllell yn y drosedd y cawsant y ddedfryd gyfredol o garchar ar ei chyfer, ac roedd 24 y cant arall o blant wedi cyflawni troseddau blaenorol yn ymwneud â chyllyll. |
| Denodd chwe deg dau y cant o'r achosion a arolygwyd statws Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). |
| Nid oedd tri deg chwech y cant o blant wedi cael unrhyw sancsiynau blaenorol nac un cyn cael dedfryd o garchar. Adlewyrchwyd hyn yn y thema remánd ddiweddar, gan nad oedd gan 69 y cant o blant naill ai unrhyw sancsiynau blaenorol neu un cyn eu remánd. |
| Gwelsom ddigon o gynllunio a darpariaeth ar gyfer llety addas mewn 79 y cant o achosion, ac roedd gan 23 o'r 24 o blant lety amserol a phriodol pan gawsant eu rhyddhau i'r gymuned. |
| O ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, roedd digon o gynllunio ar gyfer 69 y cant o'r plant, gyda 18 allan o 23 mewn darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth briodol ar ôl eu rhyddhau. |
| Roedd tystiolaeth ddigonol o gynllunio ar gyfer darpariaeth gofal iechyd mewn 66 y cant o achosion, a darpariaeth gofal iechyd priodol pan ryddhawyd y plentyn o'r ddalfa mewn 21 allan o 25 o achosion. |
| Mewn 61 y cant o'r achosion a arolygwyd, gosodwyd plant dros 50 milltir i ffwrdd o'u cartref. |
| Mewn 82 y cant o achosion, aseswyd bod y ddarpariaeth ailsefydlu yn ddigonol i gadw'r plentyn yn ddiogel, ac roedd rhannu gwybodaeth yn effeithiol mewn 89 y cant o achosion. |
| Ystyriwyd bod darpariaeth ailsefydlu yn ddigonol i gadw eraill yn ddiogel mewn 87 y cant o achosion. |
| Roedd GCIau yn effro ac yn ymatebol i anghenion a diogelwch dioddefwyr mewn 70 y cant o achosion ailsefydlu. |
| Ni chofnodwyd crefydd 25 y cant o blant. |

Ni chofnodwyd hunaniaeth rywiol chwe deg un y cant o blant.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gan bron bob un o'r GCIau a arolygwyd bolisi ailsefydlu pwrpasol i arwain prosesau ac arfer a sicrhau bod goruchwyliaeth a chymorth yn effeithiol i blant mewn sefydliadau diogel. Un o gryfderau allweddol y polisïau a'r dogfennau canllaw hyn oedd eu bod wedi'u seilio ar ymchwil gyfredol ac arfer effeithiol, wedi'u cysylltu'n bennaf ag ailsefydlu adeiladol, theori hunaniaeth, egwyddorion plentyn yn gyntaf a gweithio amlasiantaethol. Lle'r oedd arfer ailsefydlu yn gryf ac yn effeithiol, roedd hyn yn gysylltiedig â gwaith partneriaeth cydweithredol a throsolwg, yn strategol ac yn weithredol. Roedd hyn yn sicrhau bod plant yn cael eu helpu i ymgysylltu ag ymyriadau a gwasanaethau priodol. Gwelsom dystiolaeth gyson bod staff o'r GCIau yn ffurfio perthynas adeiladol â phlant, rhieni a gofalwyr. Roedd perthnasoedd da rhwng ymarferwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, plant, rhieni, a gofalwyr yn hanfodol i gynnal perthnasoedd arwyddocaol er mwyn helpu'r plentyn i ailintegreiddio i'w deulu a'i gymuned ar ôl ei ryddhau.

Roedd cadw plant ac eraill yn ddiogel yn cael ei weld yn gyson fel maes cryfder yn y practis y gwnaethom ei arolygu. Mae'n galonogol gweld arfer cryf yn y meysydd hyn, o ystyried mai plant sy'n cael eu dedfrydu i garchar yn aml sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a'u bod yn cyflwyno'r risg fwyaf i gymunedau. Gwelsom dystiolaeth bod gwasanaethau yn ystyriol o anghenion a diogelwch dioddefwyr, ac yn ymateb iddynt yn y gwaith a arolygwyd gennym.

Roedd cyfran sylweddol o'r plant yn yr achosion ailsefydlu a adolygwyd gennym yn 18 oed ac yn gymwys i'w trosglwyddo i'r system oedolion. Dyna pam yr ydym yn pwysleisio pwysigrwydd arferion pontio effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio a darpariaeth dda o ran llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gofal iechyd i blant ar ôl eu rhyddhau.

Yr hyn a oedd yn peri pryder yn yr achosion a adolygwyd oedd nifer y plant nad oedd ganddynt lawer o gysylltiad blaenorol, os o gwbl, â'r system cyfiawnder ieuenctid, a oeddent yn destun dedfrydau o garchar. Er ei bod yn bosibl nad yw'r plant hyn yn hysbys i GCIau, maent yn aml yn hysbys neu'n hysbys yn flaenorol i asiantaethau statudol eraill. Mae hyn yn dangos bod angen i bartneriaethau strategol wneud rhagor o waith i nodi, dargyfeirio, ac atal y plant hyn rhag cael eu taflu i'r ystâd warchodaeth, yn aml wedi cyflawni troseddau difrifol iawn, treisgar yn bennaf. Ni ddylai ymyriadau ar gyfer plant ddechrau gyda'r drosedd, gan y bydd y dangosyddion a'r cyfathrebu ymddygiadol yn aml yn bresennol ymhell cyn hyn. Y sgil a'r dasg yw cael gweithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r system cyfiawnder ieuenctid (addysg a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol plant yn aml) i adnabod ac ymateb yn briodol i'r awgrymiadau a'r cyfathrebu gan blant a allai achosi iddynt gymryd rhan mewn trosedd ddifrifol.

Mae angen hefyd i fynd i'r afael ag anghymesuredd plant yn y ddalfa barhau i fod yn ffocws hollbwysig i bolisi cenedlaethol a chynllunio strategol lleol. Mae anghymesuredd yn parhau i fod yn amlwg ar gyfer plant sy'n destun dedfrydau o garchar, ac mae ein data arolygu yn parhau i ddangos bod plant mewn gofal, plant o grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig a phlant ag anabledd yn cael eu gorgynrychioli o fewn yr ystâd garcharol. Er bod GCIau yn dda am ddiwallu anghenion amrywiol plant unigol, mae angen i'r sector wneud mwy o ymdrech i sicrhau bod cynlluniau

cenedlaethol a strategol yn canolbwyntio ar fynd i’r afael â gorgynrychioli plant o grwpiau agored i niwed a lleiafrifol.

**Enghraifft o achos ailsefydlu**

Roedd Jason yn ddyn gwyn Prydeinig 16 oed a ddedfrydwyd i gyfnod sylweddol o garchar yn dilyn troseddau o ladrata. Roedd gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol plant yn adnabod Jason ac roedd wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant o oedran cynnar. Roedd pryderon am ei brofiadau plentyndod, gan gynnwys ymosodiadau corfforol gan ei fam a cham-drin domestig yng nghartref y teulu a gyflawnwyd gan ei dad. Profodd ansefydlogrwydd, diffyg ffiniau a gwrthodiad. Roedd gan Jason bum sancsiwn blaenorol am amrywiaeth o droseddau, gan gynnwys tri datrysiad y tu allan i’r llys a dau orchymyn atgyfeirio.

Dechreuodd y gwaith ailsefydlu gyda Jason o ddechrau ei ddedfryd o garchar. Cynhaliwyd asesiad helaeth a bu'r holl asiantaethau'n cydweithio i hysbysu a rheoli ei achos cyn ac ar ôl ei ryddhau. Roedd lefel cymhelliant Jason yn amrywio yn y ddalfa, ac yn gyffredinol gwrthododd gymryd rhan mewn ymyriadau. Fodd bynnag, parhaodd yr ymarferydd i geisio ymgysylltu ag ef a chadw mewn cysylltiad ag ef drwy gydol ei gyfnod yn y ddalfa, gan sicrhau ei fod yn ymwybodol o bob cam neu newid fel rhan o’i ddedfryd, gan gynnwys y rhesymau dros ei symudiadau rhwng ystadau carcharol (sefydliadau troseddwyr ifanc). Parhaodd eu dyfalbarhad er gwaethaf wynebu ymddygiadau negyddol gan Jason.

Cafwyd ymatebion priodol i bryderon a gododd am ei ymddygiad yn y ddalfa, a bu cyswllt helaeth o ganlyniad.

Fe wnaeth yr ymarferydd gyfathrebu â theulu Jason, a hysbysu gweithiwr cymdeithasol cyn-bartner Jason am ei ryddhau arfaethedig.

Sicrhaodd yr ymarferydd fod digon o oruchwyliaeth trwy MAPPA, adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a chyfarfodydd amlasiantaethol ar gyfer camfanteisio ar blant. Helpodd hyn gyda chydlynu gwybodaeth, rheoli risg, atebolrwydd a chynnydd wrth ddod o hyd i leoliad addas. Darparodd gweithiwr fforensig CAMHS gefnogaeth gydag achos Jason a ffurfiodd sail ar gyfer mynd i'r afael â thrawma heb ei ddatrys. Roedd y defnydd o MAPPA wedi helpu i ddatrys anawsterau o ran dod o hyd i leoliad addas a chefnogi hyn i gael ei ddatblygu.

Roedd amodau'r drwydded yn gymesur ac yn sicrhau bod Jason yn cael cymorth priodol, rheolaethau allanol ac ymyriadau.

# Gwersi a ddysgwyd ar y rhaglen arolygu hon a dyfodol arolygiadau ieuenctid

## Arolygu yng Nghymru

Rydym wedi cwblhau adolygiad ar raddfa eang o sut rydym yn darparu arolygiadau yng Nghymru. Am y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad blynyddol hwn, fe wnaethom ohirio arolygu yng Nghymru, a dyna pam nad oes unrhyw GCI yng Nghymru yn ymddangos yn yr adroddiad blynyddol hwn. Rydym wedi adolygu ein prosesau'n llawn i sicrhau y gallwn gyflawni ein hymrwymiad y byddwn, wrth gynnal ein harolygiadau yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Rydym am hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn arolygiadau lle mae hynny'n cael ei ddymuno.

Fel rhan o hyn rydym wedi cwblhau adolygiad mewnol ac wedi cynnal nifer o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gaffael gwasanaethau dehongli y tu allan i fframwaith The Big Word. Mae hyn er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu lleol, a sicrhau bod ganddynt wybodaeth leol a'u bod yn deall tafodiaith leol. Mae hyn bellach wedi'i gadarnhau a gallwn ddefnyddio gwasanaethau lleol.
- Hysbysebu am a recriwtio arolygwyr sy'n siarad Cymraeg. Rydym wedi llwyddo i recriwtio tri arolygydd sy'n siarad Cymraeg (un arolygydd cynorthwyol, un arolygydd ieuenctid EF ac arolygydd y telir ffi iddo)
- Recriwtio aseswyr lleol sy'n siarad Cymraeg. Ymgymerwyd â hyfforddiant ac mae gennym nifer fach o aseswyr lleol sy'n siarad Cymraeg wedi'u hyfforddi ac yn barod i'w defnyddio.
- Parhau i geisio cynyddu recriwtio arolygwyr sy'n siarad Cymraeg a thargedu ein hysbysebion o fewn gwasanaethau yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymestyn ein cynllun cysgodi i siaradwyr Cymraeg.
- Archwilio ac adolygu ein cydymffurfiad â'n cynllun iaith Gymraeg. Mae'r archwiliad wedi'i gwblhau ac rydym yn dysgu gwersi o hyn ac yn eu cymhwyso i'n harolygiadau wrth symud ymlaen.
- Gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i adolygu a diweddaru ein cynllun iaith Gymraeg. Mae ein cynllun diwygiedig wedi cael ei gymeradwyo.

## Adborth o arolygiadau

Fel rhan o'n hymagwedd at arolygiadau ieuenctid, mae trefniadau wedi'u sefydlu i sefydliadau a arolygir roi adborth ar eu profiad o'r broses arolygu gyfan. Mae penaethiaid gwasanaeth y GCI, cadeiryddion byrddau ac uwch arweinwyr eraill yn cael cyfle i gyfarfod â phennaeth y rhaglen arolygu ieuenctid a thrafod sut y cafodd yr arolygiad ei gyflwyno (o'r adeg cyhoeddi hyd at gyhoeddiad terfynol yr adroddiad arolygu).

Fel arolygiaeth annibynnol a sefydliad adfyfyriol, mae cyfleoedd o'r fath yn galluogi'r rheini o'r sefydliadau yr ydym yn eu harolygu i gael trafodaeth agored gyda ni. Mae hyn yn rhoi sicrwydd iddynt ein bod yn dilyn ein methodoleg arolygu, a'n bod yn arolygu yn erbyn ein pum egwyddor allweddol. Mae hefyd yn llywio unrhyw ddysgu neu addasiadau i'n hymagwedd, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o effaith gadarnhaol gweithgarwch arolygu.

O ganlyniad i'r adborth a gawsom gan sefydliadau a arolygwyd a rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi rhoi newidiadau ar waith i wella'r profiad arolygu. Mae'r rhain yn cynnwys:

* cyflwyno cyfarfodydd cadw mewn cysylltiad yn ystod wythnos gwaith maes yr arolygiad, i roi cyfle i arolygwyr rannu ac archwilio themâu cychwynnol a thrywyddau ymholi

* cyflwyno cyfarfod 'cyn gwaith maes' ar ddatrys y tu allan i'r llys, er mwyn galluogi'r tîm arolygu i ddeall yn llawn y dull lleol o gyflawni gwaith datrys y tu allan i'r llys cyn dechrau gwaith maes ar y safle

* newidiadau yn ein dull samplu achosion ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae hyn yn cynnwys ymestyn yr amserlen ar gyfer dewis achosion, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddewis hyd a lled o fathau o achos, rheolwr achos a gwaith a wneir

* mwy o eglurder ynghylch pa achosion sydd 'o fewn cwmpas' i'w harolygu, yn seiliedig ar achosion o'r fath sy'n gofyn am drosedd gysylltiedig a darparu ymyriadau

* cyflwyno adroddiadau arolygu byrrach, sy'n fwy hygyrch i ystod ehangach o randdeiliaid a chynulleidfa

* cyflwyno cyfarfod adborth ffurfiol rhwng arolygwyr arweiniol ac uwch arweinwyr y GCI ar ôl i'r sefydliad a arolygwyd gael adroddiad cryno cychwynnol y panel graddau, a chyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu llawn.

## Datblygu'r rhaglen arolygu newydd

Defnyddiwyd adborth i lywio datblygiad rhaglen a fframwaith arolygu newydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys siapio ein ffordd o feddwl am y canlynol:

- mabwysiadu ymagwedd fwy ystwyth a chymesur at weithgarwch arolygu
- arolygu pa mor dda y mae'r GCI yn bodloni anghenion y plentyn (pob achos mewn un parth dau) yn hytrach na pha mor dda y mae'n rheoli datrysiadau o ran rhaniad llys/datrysiad y tu allan i'r llys
- cynnwys achosion mechnïaeth a remánd yn ein gweithgaredd arolygu
- arolygu adolygu ar draws asesu, cynllunio a gweithredu a chyflwyno, yn hytrach nag fel safon ar wahân, i gydnabod natur ddeinamig gweithgaredd adolygu
- newid iaith arolygu i gyflawni newid cadarnhaol, sicrhau diogelwch i'r plentyn a sicrhau diogelwch i eraill
- cael gwared ar y safon gwybodaeth a chyfleusterau
- symud i ffwrdd o arolygiadau craidd ar y cyd, ac adnewyddu ein hymrwymiad i weithio ar y cyd ag arolygiaethau partner trwy ffurfio ein tîm thematig (gan gynnwys trwy gyfrannu at arolygiadau maes thematig perthnasol ar y cyd wedi'u targedu)
- datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a bod yn gliriach ynghylch rhyngwyneb a chyfrifoldebau pob un o'n sefydliadau
- gwella ein harlwy i blant ymgysylltu â ni yn ystod arolygiad o'u GCI, a darparu ystod ehangach o gyfleoedd a dulliau
- lleihau'r cais am dystiolaeth ymlaen llaw a'r cyfnod rhwng cyhoeddi arolygiad a dechrau gwaith maes
- cyflwyno safon dioddefwyr
- cynnal dau fath o arolygiad: arolygu gwaith gyda phlant a dioddefwyr ac arolygu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

Drwy gydol y cyfnod adrodd blynyddol hwn rydym wedi bod yn gweithio ar ein cynlluniau ar gyfer y rhaglen arolygu ieuenctid newydd. Mae hyn wedi cynnwys cynnal nifer o sioeau teithiol (yn bersonol ac ar-lein), lansio ein hymgynghoriad ar-lein, sefydlu grŵp gweithwyr rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â’n grŵp cynghori academaidd. Rydym hefyd wedi ymgynghori â phlant ac wedi gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym yn treialu ein cynigion drwy gydol 2024 ac yn edrych ymlaen at lansio’r rhaglen newydd yn 2025.